
adroddiad blynyddol & chyfrifon
2000

annual report & accounts
2001




WDA

25

25 MLYNEDD MEWN BUSNES DROS GYMRU

25 YEARS IN BUSINESS FOR WALES

AWDURDOD DATBLYGU CYMRU

WELSH DEVELOPMENT AGENCY

# cynnwys | contents


2 gwariant, targedau & canlyniadau
2 prif ganlyniadau
4 datganiad y cadeirydd
8 cynyddu ac ymledu ffyniant
- 8 cefnogi busnes
- 14 sicrhau buddsoddiad i Gymru
- 16 darparu tir ar gyfer datblygu
- 18 cefnogi adfywio cymunedau a'r amgylchedd

20 cyflwyno gwasanaethau ledled cymru
- 20 de orllewin cymru
- 24 de ddwyrain cymru
- 28 canolbarth cymru
- 32 gogledd cymru

36 datganiad y prif weithredwr
38 aelodau bwrdd y wda
40 crynodeb o'r datganiad ariannol


3 expenditure, targets & outputs
3 main results
5 chairman's statement
9 increasing and spreading prosperity
- 9 supporting business
- 15 securing investment into Wales
- 17 making land available for development
- 19 supporting the regeneration of communities and the environment

21 delivering service throughout wales
- 21 south west wales
- 25 south east wales
- 29 mid wales
- 33 north wales

37 chief executive's statement
39 wda board members
41 summary financial statement


# gwariant, targedau & canlyniadau

2001 / 2001   2000 / 2000





Gwariant Ariannol
Cash Expenditure


2000/2001 Alldro / 2000/2001 Outturn   2000/2001 Targed / 2000/2001 Target




Cyfanswm Buddsoddiad o'r Sector Preifat
Total Private Sector Investment




Datblygu Busnes / Rhaglenni Cyfalaf
Business Development / Capital Programmes




Mewnfuddsoddiad
Inward Investment



# prif ganlyniadau

Yn y flwyddyn hyd at Ebrill 2001, roedd gweithgareddau'r Awdurdod yn gyfrifol am gynorthwyo i greu neu ddiogelu 21,873 o swyddi. Dyma'r cyfanswm uchaf erioed a roedd yn uwch na'r targed o 19,000 o swyddi a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Roedd y rhan fwyaf o'r swyddi hyn (12,448) mewn cwmnïau Cymreig a dderbyniodd gefnogaeth gan amrediad llawn o raglenni'r Awdurdod.

Yn y cyfamser cafodd buddsoddwyr yng Nghymru o rannau eraill y Deyrnas Gyfunol a thramor help gan yr Awdurdod i greu neu ddiogelu 9,425 o swyddi, o'i gymharu â tharged o 8,500. (O'r 9,425 swydd, roedd 3,776 yn rhai a gafodd eu creu gan brosiectau newydd a ddenwyd gan gwmnïau o wledydd tramor. Gellir priodoli'r gweddill i ehangu gan fuddsoddwyr presennol).

Rhan bwysig o genhadaeth y WDA yw cefnogi ardaloedd llai ffyniannus Cymru.

O'r cyfanswm o bron i 22,000 o swyddi a gefnogwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, roedd 12,559 (57%) yn rhannau gorllewinol Cymru neu yn y Cymoedd - o'i gymharu â tharged y Cynulliad o 12,000.


Yn ystod y flwyddyn llwyddodd gweithgareddau'r Awdurdod i 'ysgogi' £545 miliwn o fuddsoddiad sector preifat (o'i gymharu â tharged y Cynulliad o £580 miliwn.)

Roedd trosiant busnes Cyfadran Tir yr Awdurdod, sy'n gweithio i sicrhau fod tir ar gael yng Nghymru ar gyfer prosiectau sy'n ddymunol yn economaidd neu gymdeithasol, yn £26 miliwn, y ffigur uchaf erioed - mewn cymhariaeth â tharged y Cynulliad o £17 miliwn.


Dechreuodd mentrau yn seiliedig yng Nghymru ddatblygu tua 1,000 o gynnyrch a phrosesau newydd yn ystod y flwyddyn gyda chymorth gan yr Awdurdod.

Ac enillodd cwmnïau bwyd-amaeth Cymru werth £110 miliwn o fusnes newydd gyda chymorth y WDA.


## expenditure, targets & output





Cyfanswm Swyddi a Gefnogwyd
Total Jobs Supported




Swyddi a Gefnogwyd gan Brosiectau Tramor Newydd
Jobs Supported by Overseas New Projects




Swyddi a Gefnogwyd yn y Gorllewin a'r Cymoedd
Jobs Supported in West Wales & Valleys




Trosiant y Gyfadran Tir
Land Division Turnover



## main results

In the year to April 2001, the Agency's activities helped to create or safeguard 21,873 jobs. This was the highest total ever achieved by the Agency and it exceeded the Assembly-set target of 19,000 jobs.

The majority of these jobs ( 12,448 ) were in Welsh companies which received support from a whole range of Agency programmes.

Meanwhile, investors in Wales from other parts of the United Kingdom and from overseas were helped by the Agency to create or safeguard 9,425 jobs, compared with a target of 8,500. (Of the 9,425 jobs, 3,776 were created by new projects attracted from overseas. The remainder were attributable to expansion by existing investors)

An important part of the WDA's mission is support for the less-prosperous areas of Wales.

Of the total of nearly 22,000 jobs supported by the Agency during the year, 12,559 (57%) were in western parts of Wales and the Valleys - compared with an Assembly target of 12,000.

Over the course of the year, Agency activities 'levered in' £545 million of private sector investment (compared to an Assembly target of £580 million).

The business turnover of the Agency's Land Division, which works to ensure that land is available in Wales for socially or economically desirable projects reached the highest-ever figure of £26 million - compared to an Assembly target of £17 million.

Wales-based enterprises began the development of some 1,000 new products and processes during the year with assistance from the Agency.

And Welsh agri-food companies won £110 million worth of new business with WDA help.



Canolfan newydd Technium ym Mhorth Tawe, Abertawe

The new Technium centre at Port Tawe, Swansea



# *datganiad y cadeirydd*

Ym mhumed blwyddyn ar hugain Awdurdod Datblygu Cymru, mae'n dda gennyf gofnodi y ffigurau gorau ar gyfer creu swyddi yn ein hanes. Cafodd bron 22,000 swydd eu cefnogi gan weithgareddau'r Awdurdod o'i gymharu â'r targed o 19,000 a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Fodd bynnag, er y llwyddiannau clodwiw hyn, rydym yn llawn werthfawrogi'r problemau economaidd a chymdeithasol a wynebwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn arbennig gan ddiwydiant trwm, rhannau eraill o'r sector gweithgynhyrchu a'n cymunedau gwledig. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i weithio hyd yn oed yn agosach gyda'i bartneriaid i gynorthwyo i ateb yr heriau hyn..

Cafodd cwmpas cyfraniad yr Awdurdod at ddatblygiad economaidd ei gydnabod yn ddiweddar yn y drafodaeth mewn sesiwn llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol ar ganlyniadau'r Adolygiad Pum Mlynedd diweddar ar y WDA. Mynegwyd cefnogaeth ar draws y pleidiau gwleidyddol gydag un siaradwr yn cynnig 'gwerthfawrogiad llawn o werth gwaith hollol hanfodol y WDA' tra dywedodd un arall 'mae'n ffaith hysbys fod Awdurdod Datblygu Cymru yn ased wych.'

Y tu ôl i'r geiriau gwresog hyn o gefnogaeth mae cydnabyddiaeth o werth ein gwaith, ein hymrwymiad i gyflawni amcanion gwellcymru.com, a'n hymgyrch i wireddu'r cyfle unwaith mewn oes a ddaw yn sgîl y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

Yn y deuddeg mis diwethaf, bu'r cais i sicrhau cyflogaeth gwerth-ychwanegol uchel, arloesedd a rhagoriaeth yn llawer mwy na dyhead. Mae'r economi gwybodaeth, sydd mor hanfodol i'n hamcanion o gynyddu ein bri fel amgylchedd fasnachol gyda'r gorau yn y byd, yn cynrychioli pennod newydd yn natblygiad Cymru.

Bu ychwanegu gwerth drwy syniadau ac arloesedd bob amser yn allwedd i'n min cystadleuol ac yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i fanteisio'n llawn ar genhedlaeth newydd o gyfleoedd busnes. Mae cyfuniad di-ail o gwmnïau rhagorol, cyfoeth o ragoriaeth academaidd ynghyd â'n gweithlu ymrwymedig a hyblyg yn gwneud cyflwyno swyddi ansawdd uchel yn seiliedig ar arloesedd yn fwy posibl byth.

Mae rhaglen £29 miliwn i ehangu'r economi gwybodaeth dros y flwyddyn nesaf yn greiddiol i'n strategaeth i gyfrannu at greu nifer sylweddol o swyddi gwerth uwch yn ystod y degawd hwn. Cyflawnir cynnydd mewn gwerthiant ac elw drwy:

- Annog buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu
- Gwella cysylltiadau rhwng busnesau bach a phrifysgolion
- Hyrwyddo clystyrau o gwmnïau yn gweithredu yn yr un sector
- Darparu'r isadeiledd i feithrin busnesau Cymreig a denu buddsoddwyr blaenllaw y byd.

Roedd lansio cysyniad Technium ar Ddydd Gŵyl Dewi yn gam pwysig ymlaen. Mae hyn yn golygu sefydlu rhwydwaith pen-eithaf-y-grefft o gyfleusterau 'deorfa' ymchwil a datblygu, gan gysylltu cyrff o ymchwil academaidd arbenigol gyda gweithgareddau masnachol. Mae wedi dal dychymyg busnesau o fewn Cymru ac o amgylch y byd, gan greu gwir ymdeimlad o gyffro a phosibiladau.



Cadeirydd yr Awdurdod, Syr David Rowe-Beddoe, Prif Weithredwr Britax International, Richard Marton a'r Prif Weinidog, Tony Blair, yn agoriad swyddogol y gwaith ar ffatri newydd cynhyrchu seddau awyrennau Britax, yng Nhwmbran

Agency Chairman Sir David Rowe-Beddoe, Britax International's Chief Executive Richard Marton and Prime Minister Tony Blair at the inaguration of Britax's new aircraft seat manufacturing plant at Cwmbran



# *chairman's statement*

In this report on the Welsh Development Agency's twenty-fifth year, I am pleased to record the best figures for job creation in our history. Almost 22,000 jobs were supported by the Agency's activities compared with the target of 19,000 set by the National Assembly for Wales.

However, despite these commendable achievements, we fully appreciate the economic and social problems faced in the last year, especially by heavy industry, other parts of the manufacturing sector and our rural communities. The Agency is committed to working even more closely with its partners to help meet these challenges.

The scope of the Agency's contribution to economic development was recently recognised in the National Assembly's plenary debate on the results of the recent Quinquennial Review of the WDA. Cross party support was expressed with one member offering 'full appreciation of the value of the WDA's indispensable work' while another commented that: 'it is a known fact that the Welsh Development Agency is a wonderful asset.'

Behind these warm words of support is recognition of the value of our work, our commitment to achieving the objectives of betterwales.com, and our drive to realise the once-in-a-lifetime opportunity provided by European structural funds.

In the last twelve months, the pursuit of high value-added employment, innovation and excellence has been much more than an aspiration. The knowledge economy, so crucial to our objectives of raising our reputation as a world-class commercial environment, represents a new chapter for the development of Wales.

Adding value through ideas and innovation has always been key to our competitive edge and it strongly positions us to take full advantage of a new generation of business opportunities. A winning combination of exceptional companies, a wealth of academic excellence along with our committed and flexible workforce makes the delivery of high-quality, innovation-based jobs all the more possible.

A £29 million programme during the current year to expand the knowledge economy is at the heart of our strategy to contribute to the creation of a significant number of higher value jobs during this decade. Increased sales and profits will be achieved by:

- Encouraging investment in Research and Development
- Improving links between small businesses and universities
- Promoting clusters of companies operating in the same sector
- Providing the infrastructure to nurture Welsh businesses and attract world-leading investors.

The launch of the Technium concept on St. David's Day was an important step forward. This entails the establishment of a state-of-the-art network across Wales of research and development 'incubator' facilities linking specialised academic research to commercial operations. It has captured the imagination of businesses both within Wales and around the world, creating a real sense of excitement and possibility.

# datganiad y cadeirydd

Mae'r cyntaf o'r rhain yn Abertawe. Mae eisoes yn weithredol ac eisoes yn llawn. Mae wedi denu defnyddiwr rhyngwladol pwysig ar wedd Agilent Technologies, sydd ei hunan yn gwmni 'deillio'.

O fewn yr Awdurdod, mae'n hymrwymiad i weithredu newid a darparu cyfle wedi parhau yn chwim a bu'n amhrisiadwy wrth ateb heriau newydd. Daethom yn gyfrifol am swyddogaethau menter y Cynghorau Hyfforddiant a Menter a chynorthwyo twf o fewn mentrau bach a chanolig drwy ein his-gwmni Cyllid Cymru ccc, a gafodd ganlyniadau £7.2 biliwn ac wedi cynorthwyo i greu 62,000 o swyddi a diogelu 30,00 o swyddi eraill. Caiff llwyddiant rhyngwladol Cymru, ei hedmygu ledled y byd ac yn yr un modd canlyniadau ein hymdrechion o fewn Cymru ei hunan.

Mewn llawer man, ystyrir Awdurdod Datblygu Cymru yn batrwm o ddatblygu economaidd. Mae'n cenedl a'r Awdurdod wedi gweithio'n galed i adeiladu bri y mae gennym gyfiawnhad dros fod yn falch ohono.



*'Mae'n cenedl a'r Awdurdod wedi gweithio'n galed i ddatblygu enw da y gallwn fod yn falch iawn ohono.'*

cryf a pherfformiad cadarn yn ei flwyddyn gyntaf.

Yr ydym yn ymrwymedig i hybu llewyrch ein cymunedau gwledig, a byddwn yn chwarae rhan allweddol wrth weithredu Cynllun Adfer Gwledig i ddelio ag effaith clwyf traed a'r genau. Bydd yr ystod eang o fesurau a gyflwynir gan yr Awdurdod ar gael ymhob rhan o'r Gymru wledig.

Mae gennym yn ogystal nifer o wasanaethau arbennig yn canolbwyntio ar fusnesau- amaeth. Cynorthwyodd y gwasanaethau yma i'r busnesau hyn sicrhau gwerth £110 miliwn o fusnes newydd yn ystod y flwyddyn. Un o gynlluniau'r Gyfarwyddiaeth oedd cyfres o gytundebau gyda phrif gadwyni archfarchnad i gario mwy o gynnyrch Cymru.

Y llynedd, adroddais y byddem yn dod yn asiantaeth e-ddatblygu flaenllaw a gwnaed cynnydd sylweddol drwy'r cynllun eWDA. Rydym yn awr yn mynd rhagddi'n dda at sefydlu corff sy'n rhannu gwybodaeth drwy systemau rheolaeth gwybodaeth soffistigedig, mewnrwyd adnewyddedig, aildrefnu storio gwybodaeth, cynyddu cyflymder drwy Rwydwaith Ardal Eang wedi'i hailwampio a chyflwyno cynlluniau e-ddysgu blaengar.

Mae Buddsoddwyr mewn Pobl yn faes arall lle gwnaethom gamau breision. Gwnaethom gofrestru i nodau ac amcanion i sicrhau cydnabyddiaeth BmP ym mis Awst ac wedyn gallasom ddechrau ar asesiad cam cynnar ym mis Rhagfyr. Mae perfformiad ardderchog ar y maen prawf asesu hwn yn golygu ein bod yn awr ar darged i sicrhau cydnabyddiaeth lawn o fewn y flwyddyn i ddod.

Rwyf bellach yn fy nawfed blwyddyn a hwn yw fy Natganiad Blynyddol olaf. Dymunaf ddweud cymaint o anrhydedd a braint fu i mi fedru gwasanaethu Cymru a hefyd y sefydliad deinamig hwn. Yn ystod y cyfnod hwn, mae Cymru wedi sicrhau mewnfuddsoddiad yn werth

Mae pob sefydliad angen newid ar lefel uwch o bryd i'w gilydd a dyma'r amser iawn i mi drosglwyddo'r awenau.

Mae fy olynydd yn etifeddu tîm galluog iawn, dan arweiniad Prif Weithredwr rhagorol yn Graham Hawker ac a gefnogir gan Fwrdd Cyfarwyddwyr cryf.

Talaf deyrnged i staff yr Awdurdod. Maent yn grwp eithriadol o bobl sydd, ar bob lefel, yn ymroi eu hunain i wella Cymru.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i ymroddiad ac ymrwymiad fy nghydweithwyr. Rwy'n cydnabod yn wresog gyfraniad Syr John Allen, George Wright a Dewi Lewis a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn. Rwyf hefyd yn croesawu'r saith aelod newydd sy'n dod â chyfoeth mawr o brofiad ac arbenigedd i'r Bwrdd.

Carwn ddiolch hefyd yn ddiffuant i holl swyddogion y cyn-Swyddfa Gymreig a'r Cynulliad Cenedlaethol presennol a gyfrannodd lawer dros y naw mlynedd ddiwethaf i lwyddiant yr Awdurdod.

Mae gan yr holl gyrff yng Nghymru sydd yn gwneud gwe mor rymus o ragoriaeth ran i'w chwarae wrth greu economi a arweinir gan arloesedd a chyflwyno'r swyddi sgil uchel y mae ein gwlad eu hangen ac yn eu haeddu.




**Syr David Rowe-Beddoe**
*Cadeirydd*

# chairman's statement

The first of these facilities is in Swansea. It is already operational and fully subscribed. It has also secured a major international occupier in the shape of Agilent Technologies, which is itself a 'spin-out'.

Within the Agency, our commitment to implementing change and providing opportunity has continued apace and has been invaluable in meeting new challenges. We have assumed the enterprise functions of the former Training and Enterprise Councils and assisted growth within small and medium sized enterprises through our subsidiary,



Finance Wales plc, which has had solid results and a sound performance in its first year.

We are committed to promoting prosperity in our rural communities and we will play a key role in the implementation of the proposed Rural Recovery Plan to deal with the impact of foot and mouth disease.The wide range of support mechanisms provided by the Agency is available in all parts of rural Wales.

In addition we have a number of specialist services focussing on agri-business. These services helped agri-food companies secure £110 million of new business during the year. One of the Directorate's initiatives was, for example, a series of agreements with leading supermarket chains to carry more Welsh products.

Last year, I reported that we would become a leading e-development agency and significant progress has been made through the eWDA initiative. We are now well on the way to establishing a knowledge sharing organisation through sophisticated knowledge management systems, a reinvigorated intranet, reorganised information storage, increased speed through a revamped Wide Area Network and the introduction of innovative e-learning initiatives.

Investors In People is another area where we have made swift progress. We signed up to the principles underlying IIP recognition in August and were subsequently able to embark on an early stage assessment in December. An excellent performance against this assessment criteria means that we are now on target to achieve full recognition within the coming year.

I am now in my ninth year and this is my last Annual Statement. I wish to say how deeply honoured and privileged I have been to serve both Wales and this dynamic institution. During this time, Wales has secured inward investment worth £7.2 billion and we have assisted in the creation of 62,000 jobs and safeguarded a further 30,000. The international success of Wales is admired globally, as indeed are the results of our endeavours within Wales itself.

In many quarters, the Welsh Development Agency is considered an exemplar of economic development activity. Both our nation and the Agency have worked hard to build a reputation of which we can be justly proud.

*'Both our nation and the Agency have worked hard to build a reputation of which we can be justly proud.'*



Every organisation needs change at senior level from time to time and now is the right moment to hand over.

My successor inherits an extremely able team, led by an excellent Chief Executive in Graham Hawker and supported by a strong Board of Directors.

I salute the staff of the Agency. They are an exceptional group of people who, at every level, devote themselves to the betterment of Wales.


I wish to express my appreciation for the dedication and commitment of my colleagues on the Board. I warmly acknowledge the contribution of Sir John Allen, George Wright and Dewi Lewis who retired during the year. I also welcome the seven new members who bring with them a wealth of experience and expertise.

My sincere thanks are due to officials past and present at the former Welsh Office and the National Assembly for Wales who have contributed much over the past nine years to the Agency's success.

All the bodies in Wales that make up such a powerful web of excellence have a part to play in facilitating an innovation-led economy which will deliver the highly skilled jobs that our country needs and deserves.



**Sir David Rowe-Beddoe**
*Chairman*





Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Amgylchedd Adeiledig ym Mhrifysgol Caerdydd yn un o rwydwaith Canolfannau Rhagoriaeth Cymru ar gyfer cydweithredu rhwng technoleg a diwydiant

Cardiff University's Centre for Research in the Built Environment is one of Wales' network of Centres of Excellence for technology and industrial collaboration

# *cynyddu ac ymledu ffyniant*

## *Cefnogi Busnes*

Nod yr Awdurdod yw cynorthwyo sefydlu a thwf mentrau bach a chanolig gydag ystod o wasanaethau a gynlluniwyd i helpu busnesau i fynd i'r afael â heriau penodol megis uwchraddio technoleg a chyrchu menter cyfalaf.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, roedd y gwasanaethau hyn yn cynnwys:

### Ffynhonnell Cymru

Amcanion Ffynhonnell Cymru yw galluogi busnesau yng Nghymru i ennill mwy o fusnes. Mae'r gwasanaeth yn dynodi ffynonellau posibl ar gyfer archebion newydd ac yn helpu busnesau yng Nghymru i wella'u gallu cystadleuol i ennill yr archebion hynny.

Y llynedd fe helpodd Ffynhonnell Cymru gwmnïau Cymru i ennill gwerth £23 miliwn o fusnes newydd. O ganlyniad fe lwyddodd y cwmnïau hynny i greu neu ddiogelu rhyw 450 o swyddi.

Yn ystod y flwyddyn fe ychwanegwyd rhaglen newydd. Mae'r rhaglen 'Ennill Busnes' yn rhoi cwrs o help ac arweiniad ymarferol gyda gweithgareddau marchnata i gwmnïau. Cafodd y rhaglen ganlyniadau buan a chalonogol gyda 12 cwmni yn ennill gwerth £7 miliwn o fusnes newydd o fewn wythnosau ar ôl cwblhau'r cwrs cyntaf.

Rhan arall o Ffynhonnell Cymru a gafodd ganlyniadau da oedd y rhaglen Methodoleg Ddarbodus, a gaiff ei ariannu'n rhannol gan y Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd. Mae'n helpu cwmnïau bach a chanolig i gwtogi gwastraff materol ac osgoi arferion gwastrafflyd, ac i wella'u perfformiad o ran cost, ansawdd ac amser cyflenwi.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen gynghori chwech i naw mis roedd cwmnïau ar gyfartaledd yn gweld cynnydd o 60 y cant yn eu trosiant a chynnydd o 17 y cant yn eu gweithlu.

### Cefnogaeth i Dechnoleg ac Arloesedd

Amcan y rhaglen Technoleg ac Arloesedd yw datblygu sector 'economi gwybodaeth' economi Cymru trwy hybu cysylltiadau rhwng diwydiant a sefydliadau academaidd, helpu cwmnïau (yn enwedig busnesau bach a chanolig) i fuddsoddi mewn cynnyrch a phrosesau newydd, a'u helpu i gyrchu cyllid ar gyfer ymchwil a datblygiad technegol.


Yn ystod y flwyddyn roedd mwy na 2,000 o fusnesau Cymreig ar eu hennill o ganlyniad i wahanol wasanaethau Technoleg ac Arloesedd a gynlluniwyd i'w helpu i addasu ac ymelwa ar syniadau a thechnegau newydd.

O ganlyniad fe ddechreuwyd datblygu tua mil o gynnyrch a phrosesau newydd yn ystod y flwyddyn, a rhoddwyd 660 o brosiectau ar waith trwy gydweithrediad rhwng busnes a cholegau a phrifysgolion.

Llwyddodd y tîm Technoleg ac Arloesedd i sicrhau bron i £4.5 miliwn o gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu gan gwmnïau Cymru - gan ysgogi £4.8 miliwn o fuddsoddiad preifat i'r un pwrpas.

Enillwyd cyfanswm o £11.6 miliwn (gan gynnwys £4.2 miliwn o arian Amcan Un) yn ystod y flwyddyn ar gyfer Rhaglen Datblygu Technoleg newydd fydd yn rhoi cefnogaeth i fusnesau bach a chanolig sy'n mabwysiadu technolegau newydd.

Mesur arall o faint y gwaith a gyflawnwyd gan y tîm oedd bod cryn dipyn dros 5,000 o ymholiadau technegol gan gwmnïau yng Nghymru wedi cael eu trin yn brydlon ac yn effeithiol yn ystod y flwyddyn ariannol.



Mae'r WDA yn cynyddu ei gefnogaeth i arloesedd a thechnoleg er datblygu ymhellach yr economi wybodaeth

The WDA is increasing its support to innovation and technology to further develop the knowledge driven economy



# increasing and spreading prosperity

## *Supporting Business*

The Agency seeks to assist the birth and growth of small and medium sized enterprises with a 'tool kit' of services designed to help businesses tackle specific challenges such as upgrading technology and accessing venture capital.

During the year under review, these services included:

### Source Wales

Source Wales' objectives are to enable Wales-based enterprises win more business. The service identifies potential sources of new orders and helps Wales-based companies improve their competitiveness to win those orders.

Last year, Source Wales helped Welsh firms win £23 million of new business. As a result, the firms involved created or safeguarded some 450 jobs.

During the year, a new programme was added. The 'Winning Business' programme gives companies a course of practical help and guidance with marketing activities. The programme achieved early and encouraging results and 12 companies secured £7 million of new business within weeks of completing the first course.

Good results were also achieved by another component of Source Wales; the Lean Methodologies programme, which is partly funded by the European Regional Development Fund seeks to help small and medium sized companies cut material waste and wasteful practices and improve cost, quality and delivery performance.

On average, the companies completing the six to nine month advisory programme experienced a 60 per cent increase in their turnover and expanded their workforces by 17 per cent.

### Support for Technology and Innovation

The Technology and Innovation service seeks to assist the development of the 'knowledge economy' sector of the Welsh economy by enhancing links between industry and academic institutions, assisting companies (especially small and medium sized enterprises) to invest in new products and processes and by helping them gain access to funding for research and technological development.

More than 2,000 Welsh businesses benefited during the year from a range of Technology and Innovation support designed to help them adopt and exploit new ideas and techniques.

As a result, the development of some 1,000 new products and processes began during the year and 660 collaborative projects were initiated between business and universities and colleges.

Nearly £4.5 million of funding for research and development by Welsh firms was secured by the Technology and Innovation team - levering an additional £4.8 million of private investment for the same purpose.

Total funding of £11.6 million (including £4.2 million of Objective One money) was gained during the year for a new Technology Exploitation Programme which will provide support to small and medium sized businesses adopting new technologies.

Another measure of the volume of work achieved by the team was that well over 5,000 technical inquiries from Wales-based businesses were handled promptly and effectively.

**Cefnogi Menter**

Nod y tîm Datblygu Menter yw meithrin diwylliant mwy mentrus a helpu datblygiad economi menter. Bu dros 2,000 o fusnesau ar eu mantais trwy ddefnyddio gwasanaethau'r tîm yn ystod y flwyddyn.

Rhaglen Datblygu Menter sy'n helpu busnesau bach i gyflogi staff gyda sgiliau yw Graddedigion Cymru. Daethant o hyd i swyddi parhaol mewn cwmnïau bach a chanolig i 1,300 o raddedigion, a swyddi dros dro i 1,500. Mae'r rhaglen hon, sy'n cael ei rheoli fel partneriaeth gydag addysg uwch, yn awr yn cael ei throsglwyddo i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch.

Cafodd y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ddechrau calonogol, wrth i gynigion am £150 miliwn o gyllid Amcan Un ar gyfer amrywiaeth o fentrau Cynllun Gweithredu gael eu cymeradwyo.

Un o'r cynlluniau a gychwynnwyd fel rhan o nod y Cynllun, sef symbylu mwy o fenter yng Nghymru, oedd rhaglen £9 miliwn i greu mwy o ymwybyddiaeth o bosibiliadau entrepreneuriaeth.

Prosiect newydd arall oedd 'Menter Menywod Cymru', fydd yn helpu merched sy'n entrepreneuriaid i sefydlu busnesau. Targed y prosiect yw cychwyn 530 o fentrau mewn tair blynedd.

Yn olaf, cafodd Rhaglen Dechrau Busnes ei lansio (mewn partneriaeth gyda nifer o sefydliadau gwirfoddol) i ddarparu cefnogaeth i grwpiau sydd ar hyn o bryd yn brin o gynrychiolaeth yn y sector busnesau bach. Bydd y rhaglen yn ceisio helpu 3,000 o bobl i ddechrau busnesau o fewn tair blynedd.

**Cefnogaeth i'r Sector Bwyd-Amaeth**

Fe helpodd Cyfarwyddiaeth Fwyd yr Awdurdod gwmnïau bwyd-amaeth i ennill gwerth £110 miliwn o fusnes newydd yn ystod y flwyddyn ariannol. Cyflawnwyd hyn trwy nifer o raglenni allweddol.


Cafodd cwmnïau bwyd a diod o Gymru eu cynrychioli, trwy'r Awdurdod, ym mhob un o'r prif arddangosfeydd bwyd rhyngwladol.

Bu digwyddiadau masnach, fel SIAL ym Mharis a'r Arddangosfa Fwyd Ryngwladol yn Llundain, yn llwyddiannau aruthrol yn 2000, gyda chwmnïau'n gwneud cannoedd o gysylltiadau o safon. Dyblodd Cymru ei phresenoldeb yn yr Arddangosfa Fwyd Ryngwladol, gyda 25 o gwmnïau yn safle'r WDA yn unig.



Yn ystod y flwyddyn cychwynnodd yr Awdurdod, gyda'i bartneriaid, ar yr arolwg mwyaf erioed o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru

During the year the Agency, with its partners, embarked on the largest ever survey of SMEs in Wales




Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fe gefnogodd y WDA gwmnïau o Ogledd Cymru yn arddangosfa IFEX yn Nulyn. Cafodd cwmnïau o Gymru eu cynrychioli hefyd yn Good Food Show y BBC ac yn y Sioe Frenhinol yn Stoneleigh.

Bu'r rhaglen Sianeli Marchnad yn gweithio i roi mwy o gynnyrch Cymru ar silffoedd y prif archfarchnadoedd ac o ganlyniad i'r gwaith hwnnw mae mwy a mwy o gynnyrch Cymru i'w cael yng nghanghennau'r archfarchnadoedd ledled y Deyrnas Gyfunol. Yn eu plith mae Caws Eryri, brithyll magu, caniau cwstard wedi'i wneud o laeth Gorllewin Cymru, Danzy Jones sef gwirod wisgi cwmni Celtic Spirit, a chynnyrch caniau Parsons.

Fe wnaeth Blas ar Gymru, rhaglen ar y cyd rhwng y WDA a Bwrdd Croeso Cymru i hybu cynnyrch Cymreig o safon yn y diwydiant twristiaeth a lletygarwch, argraff fawr mewn nifer o wyliau twristiaeth rhyngwladol pwysig. Enillodd wobrau am y stondin orau yn Utrecht a Rennes.

Adref yng Nghymru bu'r Gyfarwyddiaeth Fwyd yn gweithio gyda mwy na 200 o unigolion a sefydliadau yn y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a rhoddwyd cymorth grant o £1 miliwn tuag at gefnogi cynlluniau gweithredu'r Bartneriaeth mewn pedwar maes allweddol, sef Cig Oen ac Eidion, Cynnyrch Llaeth, Cynnyrch Organig, a Datblygu Ffermydd.

Ymysg y prosiectau a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r bartneriaeth roedd sefydlu Canolfan Organig Cymru yn Aberystwyth, sefydlu Cwmni Cig Cymru a datblygu Selsig Cig Oen Cymru.

**Cefnogaeth i'r Sector Technoleg Cyfryngau**

Nod tîmTechnoleg Cyfryngau y WDA yw annog y defnydd mwyaf eang posibl o'r Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn lansiwyd Rhaglen smE-Fusnes er mwyn helpu cwmnïau llai i fanteisio ar e-fusnes a TGC yn gyffredinol. Cafodd y rhaglen ddechrau gwych gyda 752 o gwmnïau yn cofrestru ar gyfer cyngor arbenigol. Dros ddwy flynedd mae'r Rhaglen hon yn anelu at weithio'n agos gyda 1,500 o gwmnïau yng Nghymru a chyrraedd 10,000 o gwmnïau bach a chanolig trwy ymgyrch codi ymwybyddiaeth TGC.

Cydlynodd yr uned hefyd saith partneriaeth, a gyflwynodd amrediad o wasanaethau yn gysylltiedig â TGC i gwmnïau llai, ac a gynhaliodd - gyda phartneriaid Ewropeaidd eraill - ymchwil i rôl TGC mewn datblygu rhanbarthol ac a weithiodd i helpu i ddod ag uwch wasanaethau telegyfathrebu i ardaloedd gwledig Cymru.

## Enterprise Support

The Enterprise Development team aims to nurture a more enterprising culture and to assist the development of an enterprise economy. More than 2,000 businesses in Wales gained advantage by using the team's services during the year.

Graduate Wales, an Enterprise Development programme which helps small businesses employ skilled staff, found permanent jobs in small and medium sized enterprises for 1,300 graduates and temporary jobs for 1,500. This programme, managed as a partnership with higher education, is now being handed on to the Higher Education Funding Council.

Implementation of the Entrepreneurship Action Plan got off to an encouraging start. Bids for £150 million of Objective One funding for a range of Action Plan initiatives were approved.

Among the projects launched to help attain the Plan's objectives of stimulating greater enterprise in Wales was a £9 million programme to create greater awareness of the possibilities of entrepreneurship.

Another new project was 'Women's Enterprise Wales' which will assist women entrepreneurs to set up businesses. The project's target is to help launch 530 enterprises over three years.

Finally, a Business Start Up Programme was launched (in partnership with a number of voluntary organisations) to provide support for groups currently under-represented in the small business sector. The programme will seek to assist 3,000 people to start new businesses over three years.

## Support for the Agri-Food Sector

The Agency's Food Directorate helped Welsh agri-food companies win £110 million worth of new business during the financial year. This was achieved through a number of key programmes.


Welsh food and drink companies were represented, through the Agency, at all the major international food exhibitions.

Trade events such as SIAL in Paris and the International Food Exhibition in London proved tremendously successful in 2000, with companies making hundreds of quality contacts. Wales doubled its presence at the IFE, with 25 companies in the WDA area alone.

Bydd Menter Menywod Cymru yn helpu mentergarwch ymhlith menywod er creu busnesau newydd

Women's Enterprise Wales will help women entrepreneurs to start new businesses





Mae'r sector aml-gyfryngol yn ehangu yng Nghymru

The multi-media sector is expanding in Wales

Working in conjunction with partner organisations, the WDA also supported North Wales companies at the IFEX exhibition in Dublin. Welsh food companies were also represented at the BBC Good Food Show and the Royal Show at Stoneleigh.

Meanwhile, the Market Channels programme sought to put more Welsh produce into the major supermarkets and, as a result of its work, many Welsh products became increasingly available in branches of supermarkets across the UK – including Snowdonia Cheese, farmed trout, canned custard made from West Wales milk, the Celtic Spirit Company's Danzy Jones whisky liqueur and Parson's canned products.

The Taste of Wales programme, run by the WDA in conjunction with the Wales Tourist Board to promote the use of quality Welsh produce throughout the hospitality and tourism industry, made a major impression at a number of prestigious international tourism events – winning best stand awards at Utrecht and Rennes.

Within Wales, the Food Directorate worked with more than 200 individuals and organisations in the Agri-Food Partnership and delivered £1 million of grant aid to support the Partnership's action plans in four key areas - namely Lamb and Beef, Dairy, Organic, and Farm Development.

Projects launched during the year as a result of the partnership included the establishment of the new Organic Centre Wales at Aberystwyth, the establishment of the Welsh Meat Company and the development of the Welsh Lamb Sausage.

## Support for the Media Technology Sector

The aim of the WDA's Media Technology team is to encourage the widest possible use in Wales of Information and Communications Technologies.

During the year, the Wales smE-Business Programme was launched to help smaller companies exploit e-business and ICT in general. The programme enjoyed a flying start with 752 firms signing up for specialist advice. Over two years, this Programme aims to work closely with 1,500 Welsh enterprises and to reach 10,000 small and medium sized firms through an ICT awareness raising campaign.

The unit also co-ordinated seven partnerships which delivered a range of ICT related services to smaller companies, undertook - with other European partners - research into the role of ICT in regional development and worked to help bring advanced telecommunications services to rural areas of Wales.

Cafodd 11 o fentrau cymunedol ledled Cymru eu cefnogi trwy Raglen Adnoddau Cymunedol y Gymdeithas Wybodaeth - sy'n darparu cyfarpar TGC ar gyfer grwpiau cymunedol ynghyd â chefnogaeth gyda hyfforddiant lleol, datblygu sgiliau a mentrau creu swyddi.

Mae'r uned Rhaglenni Technoleg Cyfryngau hefyd wedi darparu cyfrifiaduron aml-gyfrwng yn rhad ac am ddim i bob ysgol uwchradd ac ysgol anghenion arbennig yng Nghymru a gymerodd ran yng Nghynllun Menter Ifanc Cymru. Y nod oedd annog myfyrwyr i ddefnyddio TGC yn greadigol wrth redeg eu busnesau Menter Ifanc.



Mae'r Awdurdod a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi y Fforwm Electroneg yng Nghymru er ceisio cynyddu swyddi o ansawdd mewn diwydiannau uwch-dechnoleg

The Agency and the National Assembly for Wales supports the Welsh Electronics Forum to help increase higher skilled jobs in high-tec industries



### Cefnogaeth i'r Sector Cyfryngau Digidol

Cafodd y Fenter Cyfryngau Digidol @Cymru ei lansio yn ystod y flwyddyn i annog a chefnogi twf mentrau cyfryngau cyfathrebu a mentrau e-fasnach.

O'i bencadlys ym Mae Caerdydd mae @Cymru'n helpu mentrau newydd a rhai bach trwy ddarparu cefnogaeth dechnegol mewn uned 'ddeori' a'u helpu i gyrchu cefnogaeth ariannol.

Mae pedwar cwmni ifanc eisoes wedi eu lleoli yn uned ddeori @Cymru a agorodd ei drws yn gynnar yn 2001. Mae'r fenter hefyd yn cefnogi mwy na 60 o gwmnïau eraill sydd wedi datblygu i wahanol raddau.

Bydd Rhan 2 y fenter yn cynnwys Canolfan Cyfryngau Digidol ym Mae Caerdydd gyda lle i 20 i 25 o gwmnïau. Bydd canolfan Caerdydd yn cael ei chysylltu i gyfres o unedau deori atodol fel bod holl wasanaethau cefnogi'r ganolfan ar gael yn lleol ledled Cymru.

### Cyrchedd i Gyllid

Yn ystod y flwyddyn cafodd nifer o gynnyrch a gwasanaethau ariannol oedd yn arfer cael eu cyflenwi gan y gyfadran Datblygu Busnes a Chynnyrch eu cymryd drosodd gan gwmni newydd, Cyllid Cymru ccc.

Cafodd yr is-gwmni hwn i'r WDA ei sefydlu gan yr Awdurdod a'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn rhoi blaenoriaeth newydd i ddarparu cyllid buddsoddi a chyngor rheoli i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

Yn cael arian trwy gyfuniad o gronfeydd cyhoeddus a phreifat a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd, nod Cyllid Cymru yw hybu genedigaeth a thwf mwy o fentrau Cymreig, trwy ei gwneud yn haws iddynt godi cyllid a chael arweiniad gan arbenigwyr.

Dan arweiniad y Cadeirydd Brian Howes a Bwrdd sydd newydd ei benodi, llwyddodd y cwmni newydd i sicrhau parhad esmwyth ac effeithiol y gwasanaethau oedd yn bodoli, i hyrwyddo cais Amcan Un ar gyfer cynnydd mawr iawn yn y cronfeydd ar gael iddo, ac i osod sylfeini cadarn ar gyfer defnyddio'r cronfeydd hynny.

Rhoddodd rhaglenni sydd yn awr yn cael eu rheoli gan Cyllid Cymru gymorth i 204 o fusnesau bach, buddsoddwyd £4.7 miliwn gan sicrhau buddsoddiad ychwanegol o £15.6 miliwn o arian o'r sector preifat.

Mae rhai o'r rhaglenni'n cynrychioli partneriaethau rhwng Cyllid Cymru ei hun a sefydliadau eraill gan gynnwys Barclays, HSBC a NatWest. Mae'r rhaglenni'n cynnwys, ymysg eraill, Cronfa Benthyciadau Bach Cymru a sefydlwyd i helpu cwmnïau newydd neu fach sydd â'r potensial i dyfu ond yn methu benthyca o ffynonellau masnachol; Cronfa Benthyciadau Cymunedol Cymru, sy'n benthyca arian i brosiectau hyfyw sydd o fudd cymdeithasol; Cronfa Arloesedd Cymru, sy'n buddsoddi'n bennaf mewn mentrau technoleg uchel; Mentor Cymru, sy'n cynnig arweiniad arbenigol i reolwyr busnesau bach; a Xénos, rhwydwaith llwyddiannus 'Angylion Busnes' Cymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol mae Cyllid Cymru yn disgwyl sêl bendith derfynol i'w gais am gyllid Amcan Un. Bydd hynny, ynghyd ag arian cyfatebol a sicrhawyd o'r sector preifat, yn darparu £45 miliwn ar gyfer eu buddsoddi mewn busnesau newydd a rhai sy'n ehangu yng Nghymru.

Er mwyn defnyddio'r chwistrelliad hwn o adnoddau i sicrhau'r budd mwyaf posibl i gwmnïau bach, gwnaeth Cyllid Cymru ymdrech y llynedd i ddod yn fwy hygyrch, i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau eraill ac i adeiladu cynrychiolaeth ranbarthol gref ledled Cymru.

Eleven community-based initiatives across Wales were supported through the Community Resource Information Society Programme - which provides community groups with ICT equipment and support to help with local training, skills development and job creation initiatives.

The Media Technology Programmes unit also provided free multimedia PCs for all the secondary and special needs schools in Wales that take part in the Young Enterprise Wales Scheme. The aim was to encourage students to use ICT creatively in running their Young Enterprise businesses.

Drawing on a combination of public and private funds and European structural funds, Finance Wales' objective is to assist the birth and growth of more Welsh enterprises by making it easier for them to raise finance and to obtain expert guidance.

Under the leadership of Chairman Brian Howes and a newly appointed Board, the company succeeded in continuing smoothly the effective delivery of existing services, in progressing an Objective One bid for a very large increase in the funds at its disposal and in laying strong foundations for the deployment of those funds.

Cynorthwyodd Cronfa Benthyciadau Bach, Cyllid Cymru, y cwmni Clinical Diagnostic Chemicals o Gonwy i dyfu. Mae'r cwmni ifanc wedi datblygu offer canfod alergeddau, i'w defnyddio adref

Finance Wales' Small Loan Fund helped Conwy-based Clinical Diagnostic Chemicals to grow. The young company has developed home-test kits for detecting allergies





### Support for the Digital Media sector

The @Wales Digital Media Initiative was launched during the year to encourage and support the growth of new communications media and e-commerce enterprises.

Based in Cardiff Bay, @Wales assists new and small ventures by providing them with technical support in a pilot 'incubator' unit and by helping them to gain access to financial backing.

Four fledgling companies are already based in the @Wales incubator unit which opened its doors in early 2001 - while the initiative provides support to more than 60 other companies in various stages of development.

Phase 2 will include a Digital Media Centre in Cardiff Bay capable of accommodating 20 to 25 companies. The Cardiff centre will be linked to a satellite series of incubator units designed to deliver all of the centre's support services at a local level throughout Wales.

### Access to Finance

At the end of the financial year, a number of financial products and services formerly delivered by the Business and Product Development division were taken over by a new company, Finance Wales Plc.

This subsidiary company of the WDA was established by the Agency and the National Assembly to give new priority to the provision of investment funding and management support to small and medium sized businesses in Wales.

Programmes now managed by Finance Wales assisted 204 small businesses, invested £4.7 million and leveraged the investment of a further £15.6 million of private sector money.

Some of the programmes represent partnerships between Finance Wales itself and other organisations including Barclays, HSBC and NatWest. The programmes include among others - the Wales Small Loan Fund which was established to assist new or small firms that have the potential to grow but which are unable to borrow from commercial sources; the Community Loan Fund for Wales, which lends money to viable projects of social benefit; the Wales Innovation Fund, which invests primarily in high technology ventures; Mentor Wales, which provides expert guidance to small business managers; and Xenos, the successful Wales 'Business Angel' network.

During the current financial year, Finance Wales expects final approval of its application for Objective One funding which, together with match funding secured from the private sector, will provide £45 million for investment in new and expanding Welsh businesses.

To use this injection of resources to the maximum benefit of small firms, Finance Wales strove last year to improve its accessibility, to develop partnerships with other organisations and build strong regional representation across Wales.

## *Sicrhau buddsoddiad i Gymru*

Mae'r Awdurdod yn gweithio i sicrhau buddsoddiad ansawdd uchel o rannau eraill y byd. Rhagorodd Cyfadran Ryngwladol yr Awdurdod ar ei thargedau trwy sicrhau 70 prosiect, gan greu neu ddiogelu 9,425 o swyddi oedd â gwariant cyfalaf o £340 miliwn. Sicrhawyd y canlyniad positif hwn mewn amgylchiadau oedd yn gryn her.

Mae newidiadau byd-eang mewn diwydiant gweithgynhyrchu wedi golygu arafu yn yr ymholiadau, yn enwedig o'r sectorau modurol ac electroneg. Cafwyd hefyd gynnydd sylweddol yn nifer yr asiantaethau datblygu yn targedu prosiectau mewnfuddsoddi newydd, yn arbennig yn rhanbarthau Dwyrain Ewrop.

Er mwyn sicrhau fod cyfran Cymru o fewnfuddsoddiad yn aros yn uchel, aeth y tîm Rhyngwladol ati i chwilio am dwf yn y buddsoddiad gan ganolfannau cyswllt e-fusnes a chwmnïau meddalwedd, a gwneud hynny'n llwyddiannus.

Fel rhan o'i strategaeth o ymateb yn gyson i'r newidiadau yn amgylchedd y farchnad, mae'r tîm yn cryfhau ei weithgarwch yn y flwyddyn bresennol ar y sectorau twf gwybodaeth-seiliedig a gweithgynhyrchu gwerth ychwanegol. Bydd eleni hefyd yn cynnig her gyda digwyddiadau fel arafu economi'r Unol Daleithiau yn cael argraff ar benderfyniadau buddsoddi rhyngwladol.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw bu'r Gyfadran Ryngwladol yn gweithredu yn y marchnadoedd canlynol:

### Ewrop

Dal i dyfu wnaeth buddsoddi o rannau eraill Ewrop. Er 1996 mae nifer y swyddi newydd a gafodd eu creu yng Nghymru gan gwmnïau o ranbarthau Ewropeaidd eraill wedi cynyddu'n sylweddol. Ar gyfartaledd, mae Cymru yn awr yn ennill mwy na 13 y cant o'r holl swyddi newydd sy'n cael eu creu'n flynyddol yn y Deyrnas Gyfunol gan gwmnïau Ewropeaidd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd 2,883 o swyddi eu creu neu eu diogelu trwy fuddsoddiad o'r ffynhonnell hon, mwy na dwywaith yn fwy na'r targed gwreiddiol o 1,300 o swyddi.

Roedd y prosiectau newydd a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys 118 Limited, prosiect canolfan gwasanaeth cwsmeriaid sylweddol o Iwerddon, a fydd maes o law yn cyflogi 1,400 o bobl.

Yn dilyn y cyhoeddiad y llynedd gan one2one, rhan o Deutsche Telekom, i sefydlu canolfan gwasanaeth cwsmeriaid newydd ym Merthyr Tudful, mae'r cwmni ar darged i greu dros 800 o swyddi yn yr ardal.

### Gogledd America

Un o'r cyhoeddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn oedd cynllun buddsoddiad £246 miliwn gan gwmni moduron Ford i ehangu cynhyrchu peiriannau yn ei waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cafwyd 14 o fuddsoddiadau sylweddol eraill a lwyddodd rhyngddynt i greu neu ddiogelu 2,849 o swyddi. Roedd penderfyniad Agilent Technologies, cwmni ymchwil a datblygu a ddeilliodd o Hewlett Packard, i ddod yn un o ddefnyddwyr cyntaf cyfleuster newydd yng Nghanolfan Technium Abertawe yn llwyddiant pwysig yn nhermau technoleg a lleoliad.

Parhaodd ntl a Manpower gyda'u buddsoddiadau dechreuol, gan greu 500 o swyddi yn Abertawe a 600 ym Mhenfro.

### Asia Môr Tawel

Er mai adferiad araf fu ym marchnadoedd traddodiadol yn Japan a Korea yn dilyn yr arafu economaidd ehangach yn Asia, bu cynnydd sylweddol yn y diddordeb o farchnadoedd newydd megis China, India ac Awstralia.

Mae China yn farchnad anferth bosibl. Mae gweithredu yno yn dibynnu'n helaeth ar rwydweithio lefel-uchel a bu Cadeirydd yr Awdurdod ar sawl ymweliad â'r wlad er mwyn creu cysylltiadau allweddol i Gymru. Yn ystod un ymweliad, y WDA oedd yr unig asiantaeth ddatblygu o'r Deyrnas Gyfunol i annerch fforwm bwysig Prydain-China, grwp o ffigurau gwleidyddol a diwydiannol amlwg o Brydain a China.

Mae India'n cael ei hystyried yn farchnad fewnfuddsoddi newydd, yn arbennig yn y sector meddalwedd. Roedd y WDA yn gyd-noddwr achlysur i'r diwydiant meddalwedd ym Mumbai yn Chwefror 2001 a bydd yn parhau i weithio eleni i godi proffil Cymru yn y marchnadle newydd cyffrous hwn.

Mae Pantzel, y cwmni cyntaf o Seland Newydd i fuddsoddi yng Nghymru, wedi sefydlu eu pencadlys Prydeinig yn Ne Ddwyrain Cymru er mwyn lansio eu system rheolaeth amser digidol i Ewrop.

Roedd cyhoeddiadau o Japan yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhaglen fuddsoddiad £100 miliwn gan Toyota yn ei waith peiriannau yng Nglannau Dyfrdwy a buddsoddiad pellach gan Hi Lex Cable Systems Cyf sy'n cynhyrchu ceblau rheoli modurol ac a fydd yn creu 160 o swyddi ym Mhort Talbot. Sicrhaodd Gogledd Cymru eu buddsoddiad cyntaf o Taiwan gyda Cycle Citi yn sefydlu eu prif ganolfan gweithgynhyrchu Ewropeaidd ger Bangor.



STS yn Nghasnewydd, a gafodd lansiad llwyddiannus ar y farchnad stoc (AIM) yn mis Rhagfyr y llynedd

Newport based STS, which successfully floated on the Alternative Investment Market in December last year

## Securing investment into Wales

The Agency seeks to secure high quality investment from other parts of the world. The Agency's International Division surpassed its targets by securing 70 projects, which created or safeguarded 9,425 jobs and which will bring associated capital expenditure of £340 million. This positive result was achieved in challenging circumstances.

Global changes in manufacturing industry have led to a reduction in the number of inquiries, particularly from the automotive and electronics sectors. There has been a substantial increase in the number of development agencies targeting new inward investment projects, especially in the regions of Eastern Europe.

To ensure that Wales' share of inward investment remains high, the International team sought and achieved growth in investment by e-business, contact centres and software companies.

As part of its strategy of constantly responding to the changes in its market environment, the team is strengthening its activities in the current year in knowledge-based growth sectors and in added value manufacturing. This year will also prove challenging with events such as the slowdown of the US economy already making an impact on international investment decisions.

During the year under review, the International Division operated in the following markets:

### Europe

Investment from other parts of Europe continued to grow. Since 1996, the number of new jobs created in Wales by companies from other European regions has increased substantially. On average, Wales now wins more than 13 per cent of all new jobs created annually in the UK by continental European companies. In the last financial year, 2,883 jobs were created or safeguarded by investment from this source, more than double the original target of 1,300 jobs.

New projects secured during the year included 118 Limited, a major customer service centre project from Ireland, which will eventually employ 1,400 people.

Following the announcement last year by one2one, part of Deutsche Telekom, to set up a new customer service centre in Merthyr Tydfil, the company are on schedule to create over 800 jobs in the area.

### North America

One of the key announcements during the year was a £246 million investment plan by Ford Motor Company to expand engine production at its Bridgend plant.

There were 14 other significant investments which together generated or safeguarded 2,849 jobs. The decision of Agilent, a research and development offshoot of Hewlett Packard, to become one of the first occupants of a new facility at Swansea's Technium Centre was a major breakthrough in terms of both technology and location.

Both ntl and Manpower continued with their initial investments, creating 500 jobs in Swansea and 600 in Pembroke.

### Asia Pacific

Whilst the traditional markets in Japan and Korea have been slow to recover in the wake of the broader Asian economic slowdown, interest from emerging markets such as China, India and Australia has increased substantially.

China is potentially a huge market. Operating there relies heavily on high-level networking and the Agency's Chairman has already made a number of visits to establish key contacts for Wales. On one such visit, the WDA was asked to address the prestigious UK-China Forum, a group of senior political and industrial figures from both Britain and China.

India represents another new inward investment market, particularly in the software sector. The WDA co-sponsored a software industry event at Mumbai in February 2001 and will continue to work this year to raise Wales' profile in this exciting new marketplace.

The first New Zealand company to invest in Wales, Panztel, have set up their UK HQ in South East Wales to launch their digital time management system into Europe.


Announcements from Japan during the year included a £100 million investment programme by Toyota at its Deeside engine plant and further investment by automotive cable maker Hi-Lex Cable Systems Limited, who planned to create 160 jobs in Port Talbot.

North Wales secured its first investment from Taiwan with bicycle-maker Cycle Citi's project to establish its main European manufacturing operation near Bangor.




Agorwyd un o'r terfynellau rheilffyrdd mwyaf blaenllaw yng Ngwynllwg, Caerdydd

One of the most advanced international rail freight terminals was opened at Wentloog, Cardiff






Canolfan siopa McArthur Glen yn Mhenybont ar Ogwr, un o lwyddiannau'r Gyfadran Tir, bellach ar fin cychwyn ar ei thrydedd estyniad

McArthur Glen's designer shopping outlet in Bridgend, one of the Land Division's major successes, now entering its third phase

# cynyddu ac ymledu ffyniant

## *Darparu tir ar gyfer datblygu*

Mae'r Awdurdod yn gweithio i sicrhau fod tir ar gael ar gyfer prosiectau sy'n ddymunol yn economaidd neu'n gymdeithasol.

Mae'r Gyfadran Tir yn cynhyrchu incwm trwy werthu safleoedd ar gyfer datblygu a rhoi cymhorthdal tuag at gynlluniau sy'n llai masnachol ond yn bwysig yn gymdeithasol.

Y llynedd cafodd y Gyfadran y canlyniadau gorau yn ei hanes (un ai fel cyfadran o'r WDA neu fel cyn Awdurdod Tir Cymru). Cyrhaeddodd y trosiant £26 miliwn, sy'n record (o'i gymharu â'r ffigur uchaf cyn hynny o £22 miliwn) a gwnaeth y Gyfadran elw masnachu o £6.5 miliwn.

Yn wahanol i ganghennau eraill yr Awdurdod mae'r Gyfadran Tir yn gweithredu fel uned hunan gyllidol, gan arbenigo mewn materion datblygu tir.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw gwerthodd y Gyfadran 40 hectar o dir am £26 miliwn gan ganiatáu buddsoddiad preifat posibl o fwy na £100 miliwn tra'n caffael 59 hectar am oddeutu £20 miliwn.

Ar ddechrau'r flwyddyn yn ardal Bae Caerdydd daeth y Gyfadran yn gyfrifol am asedau datblygu eiddo gweddilliol cyn Gorfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd ynghyd â'r ymrwymiadau cysylltiedig. Cafodd y Gyfadran y gwaith o gyflawni potensial datblygu'r asedau hyn tra'n cyfarfod yr ymrwymiadau eiddo oedd yn weddill pan ddaeth y Gorfforaeth i ben.

Cafodd y Gyfadran gryn lwyddiant a llwyddodd i dalu £7 miliwn i'r Cynulliad cyn diwedd y flwyddyn, oedd yn cynnwys yr arian a gafwyd am y Gyfnewidfa Lô yng Nghaerdydd a'r Custom House ym Mhenarth.

Ymhlith y cynlluniau a'r trafodion a gwblhaodd y Gyfadran yn ystod y flwyddyn roedd:

Melin Trelái, Caerdydd, lle gwnaeth y Gyfadran Tir ei gaffaeliad mwyaf hyd yn hyn i hwyluso ailddatblygu mwy na 28 hectar ar gyfer pentref trefol cymysg, a sicrhau creu Ffordd Gyswllt Cainc Trelai mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Caerdydd.

Ar Draeth Jersey, Aberafan, caffaelodd y Gyfadran nifer o fuddiannau er mwyn ailddatblygu safle amlwg ar lan y môr fel datblygiad preswyl blaenllaw.

Yn cydweithio gyda Swyddfa Ranbarthol Cyfadran y Gogledd caffaelodd y Gyfadran hen safle Hotpoint yng Nghyffordd Llandudno ac mae wedi dechrau'r gwaith ailddatblygu trwy osod contract i chwalu'r adeiladau oedd yn dadfeilio sydd ag arwynebedd o 32,000 metr sgwâr. Y bwriad yw creu safle strategol yn darparu datblygiad diwydiannol a masnachol cymysg mewn ardal Amcan Un yn cynnig hyd at 400 o swyddi newydd.

Gyda chefnogaeth Cyngor Sir Ddinbych caffaelodd y Gyfadran safle 10 hectar (25 erw) yn y Glasdir, Rhuthun, a fydd yn caniatáu i ffordd newydd Cyswllt y Gogledd gael ei hadeiladu rhwng y cylchdro presennol ar yr A525 a'r A494. Caiff y prosiect hwn ei ariannu gan ddatblygu cysylltiedig.





*Uwchben:* Tir i'w ailddatblygu yn Nghyffordd Llandudno

*Above:* Land for redevelopment at Llandudno Junction

*Ar y chwith:* Cyfnewidfa Lô hanesyddol Caerdydd

*Left:* Cardiff's historical Coal Exchange



## increasing and spreading prosperity

### Making land available for development

The Agency seeks to ensure that land is available for socially or economically desirable projects. Its Land Division generates income from the disposal of sites to fund and subsidise less commercial but socially important schemes.

Last year, the Division achieved the best results in its history (either as a division of the WDA or as the former Land Authority for Wales). Turnover reached a record £26 million (compared with the previous highest figure of £22 million) and the Division made a trading profit of £6.5 million.

Unlike other arms of the Agency, the Land Division operates as a self financing unit and specialises in land development issues.

During the year under review, the Division disposed of 40 hectares of land for £26 million allowing a potential private sector investment of over £100 million while acquiring 59 hectares for approximately £20 million.

At the beginning of the year in the Cardiff Bay area, the Division took over the residual property development assets and associated liabilities of the former Cardiff Bay Development Corporation. The Division was charged with the task of realising the development potential of these assets while meeting the residual property liabilities outstanding at the wind up of the Corporation.

The Division achieved considerable success and was able to pay to the Assembly before the year end the sum of £7 million which included receipts earned from the disposal of the Coal Exchange in Cardiff and the Custom House in Penarth.

Among the schemes and transactions concluded by the Division during the year were:

Ely Mill, Cardiff , where the Land Division made its biggest acquisition yet in order to facilitate the redevelopment of more than 28 hectares into a mixed use urban village, and secure the construction of the Ely Spur Link Road in conjunction with Cardiff County Council.

At Jersey Beach, Aberavon, the Division acquired a number of interests to redevelop a prominent site on the sea front for a flagship residential scheme.

Working jointly with the North Division Regional Office, the Division acquired and has commenced the redevelopment of the former Hotpoint complex at Llandudno Junction with the letting of a contract to demolish the existing derelict buildings totalling 32.000 square metres. The intention is to create a strategic site providing a mixed industrial and commercial development within an Objective 1 area offering up to 400 new jobs.

With the support of Denbighshire County Council, the Division acquired a 10 hectare (25 acre) site at Glasdir, Ruthin, which will allow a new Northern Link road to be constructed between the existing A525 roundabout and A494. This project will be funded from associated development.

## *Cefnogi adfywio Cymunedau a'r Amgylchedd*

Er fod y WDA fel arfer yn cymryd y rôl arweiniol mewn prosiectau i gefnogi busnes yng Nghymru, denu buddsoddiad rhyngwladol a darparu tir ar gyfer datblygu, llywodraeth leol a grwpiau cymunedol lleol sy'n arwain mewn adfywio cymunedau a'r amgylchedd.

Nod yr Awdurdod yw galluogi cymunedau i wella eu ffyniant ac ansawdd eu bywyd drwy ddefnyddio ac ymrymhau menter leol.


blaenoriaeth gan ddechrau gyda safleoedd peryglus, yna safleoedd gyda photensial datblygu ac yn olaf safleoedd yn cyflawni amrediad eang o welliannau amgylcheddol.

Er fod cael gwared â pherygl yn amlwg yn werth chweil ynddo'i hun, mae bron yr holl safleoedd a adferwyd wedi sicrhau gwelliant sylweddol i'r amgylchedd o fewn eu ffiniau eu hunain, i'r tirlun yn gyffredinol ac i amgylchedd cymunedau cyfagos.



Parhaodd y WDA â rhaglen o welliannau amgylcheddol i wella delwedd ardaloedd a oedd wedi dioddef dirywiad economaidd

The WDA continued a programme of environmental improvements in areas which had suffered economic decline



Ym mis Mai, 2000, mabwysiadodd yr Awdurdod Bolisi Adfywio Cymunedol sydd â'r nod o integreiddio'r mesurau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sydd eu hangen i adfywio trefi a phentrefi.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r Awdurdod yn ymwneud â nifer o gynlluniau a geisiai gyflawni'r integreiddiad hwn.

Roeddent yn cynnwys Menter Ardal y Llechen dan arweiniad Cyngor Gwynedd, yn cynnwys gweithredu ar dai, trafnidiaeth, addysg a iechyd yn ogystal â datblygu economaidd a'r Fenter Trefi Marchnad yn y Canolbarth oedd â'i ffocws ar gefnogi syniadau a gynhyrchwyd gan grwpiau o bobl leol.

Yn yr holl weithgareddau adfywio, gweithiodd yr Awdurdod mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol yn cynnwys - yn neilltuol felly - Wrecsam lle dewiswyd canol y dref y 'Canol Tref sydd wedi Gwella Mwyaf yn y Deyrnas Gyfunol ar ôl rhaglen waith ar y cyd rhwng y WDA a Chyngor Bwrdeisdref Sirol Wrecsam.

Yn Llanelli, datblygwyd Parc Arfordirol y Mileniwm gan yr Awdurdod a'r awdurdod lleol ac yng Nghasnewydd bydd gwerthu tir gan y WDA yn sbardun i adfywio ardal Dociau'r Hen Dref.

Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i gyflawni ei gyfrifoldeb am wella amgylchedd Cymru drwy gefnogi partneriaid sector cyhoeddus a phreifat a thrwy gyllido adfer tir diffaith.

Er y cwblhawyd y gwaith o adfer tua 80% o'r etifeddiaeth o dir diffaith yng Nghymru, mae her sylweddol yn parhau yn nhermau rhai safleoedd a gaewyd yn fwy diweddar a rhai eithaf anodd.

Mae'r Awdurdod yn parhau i drafod prosiectau yn nhrefn

Mae llawer o safleoedd yn cynhyrchu tir ar gyfer amrediad eang o ddatblygiadau newydd tra bod eraill yn creu tir ar gyfer hamdden ffurfiol, coetir, cynefinoedd ansawdd uchel, tir parc ac yn aml yn help i gadw treftadaeth.

Fodd bynnag ni ddylid llaesu dwylo oherwydd fod cymaint o dir wedi ei adfer yng Nghymru, oherwydd gall ardaloedd mawr o ddiffeithdod newydd ddod i'r amlwg o'r newydd wrth i weithiau gael eu cau.

Caiff gwaith adfer tir yr Awdurdod ei ategu gan ei waith arall i wella'r amgylchedd.

Mae hyn yn cynnwys rhaglen barhaol o welliannau amgylcheddol i wella delwedd ardaloedd sydd wedi dioddef dirywiad economaidd, a'u gwneud yn fwy deniadol i ddatblygiad newydd. Paratowyd strategaethau tirlun ar gyfer yr ardaloedd hyn drwy weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, a sefydliadau sector gwirfoddol.

Mae cynllun Gwyrddlasu'r Cymoedd yn batrwm o'r dynesiad partneriaeth hwn, ac yn rhoi momentwm ychwanegol i adnewyddu amgylchedd Cymoedd De Cymru.

Ar yr un pryd, buom yn dyrannu mwy o adnoddau i gynlluniau i wella amgylchedd stadau a safleoedd diwydiannol, ac wedi dechrau cyllido cyflogaeth Cydlynwyr Amgylchedd Busnes i fwyhau ein heffeithlonrwydd wrth sicrhau fod busnesau'n derbyn y cyngor a'r cymorth y maent i angen i fynd i'r afael â materion amgylcheddol.

## *Supporting the Regeneration of Communities and the Environment*

Whereas the WDA usually takes the lead in projects to support business in Wales, to attract international investment and to make land available for development, the leadership in community and environmental regeneration belongs to local government and local community groups.

Although approximately 80% of Wales' derelict land legacy requiring reclamation has been dealt with, there still remains a significant challenge in terms of some more recently closed and quite difficult sites.

The Agency continues to address projects in order of priority starting with hazardous sites, then sites with development potential and lastly sites achieving a wide range of environmental improvements.



Trawsffurfio tirlun - ar safle hen Waith Glo Deep Navigation, Trelewis, ger Merthyr Tudful

A transformed landscape - at the site of the former Deep Navigation Colliery at Trelewis, near Merthyr



The Agency's aim is to enable communities to improve their prosperity and quality of life by harnessing and empowering local initiative.

In May, 2000, the Agency adopted a Community Regeneration Policy which seeks to integrate the economic, environmental and social measures needed to revive towns and villages.

During the year, the Agency was involved in a number of schemes which sought to achieve this integration.

They included the Gwynedd County Council-led Slate Valleys Initiative in North Wales, which includes action on housing, transport, education and health as well as economic development. In Mid Wales, the Market Towns Initiative was focused on support for ideas generated by groups of local people.

In all regeneration activities, the Agency worked in partnership with local authorities including - notably - at Wrexham, where the town centre was voted the 'Most Improved Town Centre in the UK' after a joint programme of work by the WDA and Wrexham County Borough Council.

At Llanelli, the Agency and the local authority developed the Millennium Coastal Park while at Newport the sale of land by the WDA will kick start the regeneration of the Old Town Dock area .

The WDA also continues to fulfil its responsibility for improving the Welsh environment through support for both public and private sector partners and by funding the reclamation of derelict land.

Whilst removal of a hazard is clearly worthwhile in itself, almost all reclaimed sites enhance the overall landscape and the environment of neighbouring communities. Many sites produce land for a wide range of new developments whilst others create land for formal recreation, woodland, high quality habitats, parkland and often help preserve heritage.

The advanced state of the reclamation process in Wales should not, however, be allowed to generate complacency, because large tracts of new dereliction can arise as a consequence of new closures.

The Agency's land reclamation work is complemented by its other work to improve the environment.

This includes a continuing programme of environmental improvements in areas which have suffered economic decline to make them more attractive for new development. Landscape strategies for these areas have been prepared by working in partnership with local authorities, CCW, Environment Agency Wales, Forestry Commission, and voluntary sector organisations.

The 'Greening the Valleys' initiative exemplifies this partnership approach and is giving added momentum to the environmental renewal of the South Wales Valleys.

At the same time, we have been allocating more resources to improve the environment of industrial estates and sites and we have started to fund the employment of Business Environment Co-ordinators to maximise our effectiveness in ensuring that businesses receive the advice and help they need in addressing environmental issues.






Y Prif Weinidog Rhodri Morgan yn Pure Wafer, Abertawe

First Minister Rhodri Morgan at Pure Wafer, Swansea

# cyflwyno gwasanaethau ledled cymru

## De Orllewin Cymru

Mae Cyfadran De Orllewin Cymru y WDA yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Abertawe, Castell-Nedd Port Talbot, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae poblogaeth y rhanbarth yn ffurfio tua 22 y cant o gyfanswm Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, cynorthwyodd gweithgareddau'r WDA yn y rhanbarth i greu neu ddiogelu mwy na 3,000 o swyddi ac i sicrhau mwy na £60.9 miliwn o fuddsoddiad sector preifat.

### Uchafbwyntiau

Llwyddiant prosiect arloesol Technium ym Mhorth Tawe, Abertawe oedd datblygiad unigol mwyaf sylweddol a chalonogol y flwyddyn.

Canolfan arloesedd £2.5 miliwn yw'r Ganolfan Technium yn Abertawe, a gynlluniwyd i feithrin mentrau uchel dechnoleg newydd. Bwriad yr Awdurdod yw iddi fod yn fodel ar gyfer canolfannau tebyg ledled Cymru.

Agorodd y Ganolfan ar gyfer busnes ar Ddydd Gwyl Ddewi 2001, ac roedd y gofod i gyd wedi ei osod ar gyfer mentrau newydd bron ar unwaith.

Wedi ei chodi ar hen ardal ddociau wag, cafodd y Ganolfan ei datblygu gan yr Awdurdod mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Cymru, Abertawe, Dinas a Sir Abertawe, ac Athrofa Abertawe. Mae cefnogaeth fusnes yn cael ei ddarparu ar y safle trwy Cyswllt Busnes a'r WDA, a cheir cyswllt hollbwysig gyda'r Brifysgol trwy rwydwaith ffibr-optig band llydan i adrannau fel Peirianneg Drydanol ac Electroneg a Gwyddor Gyfrifiadurol.

Mae 12 o fusnesau newydd economi gwybodaeth yn y ganolfan ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd y cwmnïau hyn yn tyfu'n rhy fawr i'r Ganolfan ac yn symud i adeiladau mwy o fewn 18 mis, gan ryddhau lle ar gyfer cnwd newydd o fusnesau uchel dechnoleg.

Cafodd yr Awdurdod a'i phartneriaid eu symbylu gan lwyddiant y cysyniad yn Abertawe i chwilio am gyfleoedd i greu darpariaeth debyg mewn rhannau eraill o Dde Orllewin Cymru.

Mae cynlluniau'n cael eu paratoi eisoes ar gyfer Canolfan Technium arall ym Mharc Ynni Baglan, sefydlu Bio-Technium yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne, ac Auto-Technium yn y ganolfan gampau moduron ym Mhenbre.

### Cefnogi Busnesau

Ychydig iawn o ddatblygu diwydiannol sbeciannol a wnaeth cyfadran y De Orllewin yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod y galw yn gynyddol wan. Canolbwyntiodd yn hytrach ar ddarparu adeiladau pwrpasol ar gyfer cwmnïau penodol. Ond mae arwyddion bod y galw am ffatrïoedd yn cynyddu.

Yn Ferry Lane, Doc Penfro cafodd dwy ffatri gyda chyfanswm o 3,157 metr sgwâr. eu cwblhau ym Mehefin. Cafodd yr uned fwyaf ei llenwi ar unwaith gan DPS Composites a symudodd yno o un o unedau llai y WDA, oedd wedi denu'r cwmni i Sir Benfro yn y lle cyntaf.

Yn Sir Benfro hefyd fe gododd yr Awdurdod, mewn partneriaeth â'r Cyngor Sir, ganolfan gyswllt cwsmeriaid fel datblygiad sbeciannol ym Mharc Busnes Pont Cleddau.

Cafodd y Ganolfan ei gosod ar les yn fuan i Manpower ccc - a aeth ati wedyn i rentu ail ran y datblygiad. Mae'r ehangu diweddaraf hwn yn golygu y bydd y 650 swydd a grëwyd hyd yn hyn gan Manpower yn codi i fwy na 1,000.




Donna Rees *(canol)* yn dangos un o'r cloeon drws cyntaf i ddod odd iar y llinell gynhyrchu newydd yn Mitsui Components Europe ym Mharc Hendre, Rhydaman

Donna Rees *(centre)* shows one of the first door locks to come off the new production line at Mitsui Components Europe at Parc Hendre, Ammanford



# delivering services throughout wales

## South West Wales

The WDA's South West Wales Division serves the local authority areas of Carmarthenshire, Neath-Port Talbot, Pembrokeshire and Swansea. The region's population amounts to some 22 per cent of the Welsh total.

During the year, WDA operations in the region helped to create or safeguard more than 3,000 jobs and to secure more than £60.9 million of private sector investment

### Highlights

The success of the pioneering Technium project at Port Tawe, Swansea, was the single most significant and encouraging development of the year.

Swansea's Technium Centre is a £2.5 million innovation centre designed to nurture new, high technology enterprises. The Agency intends that it will serve as a model for a whole series of similar centres across Wales.

The Centre opened for business on St. David's Day, 2001, and all available space was assigned to new ventures almost immediately.

Built on disused former dockland, the Centre was developed by the Agency in partnership with University of Wales Swansea, the City and County of Swansea and the Swansea Institute. On-site business support is provided through Business Connect and the WDA and an all-important link to the University is provided via a broadband fibre optic network to Departments such as Electrical and Electronic Engineering and Computer Science.

It now houses 12 new, knowledge driven businesses. The ambition is for these companies to outgrow their space in the Centre and move into larger premises within 18 months to release space for a new crop of High-Tec businesses.

The success of the concept in Swansea led the Agency and its partners to seek opportunities to replicate the facility in other parts of South West Wales.

Plans are already being prepared for another Technium Centre at Baglan Energy Park, a Bio-Technium based at the National Botanic Garden at Llanarthne and an Auto-Technium based at the motor sport facilities at Pembrey.

### Supporting Businesses

The South West Wales division has carried out very little speculative industrial development in recent years because demand was generally weak. It concentrated instead on providing purpose-built premises for specific companies. But there are signs that demand for factories is rising.

At Ferry Lane, Pembroke Dock two factories totalling 3,157 square metres were completed in June. The larger unit was immediately occupied by DPS Composites who relocated from a smaller WDA unit, the availability of which had originally attracted the company to Pembrokeshire.

Also in Pembrokeshire, the Agency, in partnership with the County Council built a customer contact centre as a speculative development at Cleddau Bridge Business Park.

The Centre was soon leased to Manpower plc - which subsequently also leased a second phase of the development. This latest expansion means that the 650 jobs created to date by Manpower will rise to more than 1,000.

Ym Mharc Busnes Bro Tawe rhoddodd yr Awdurdod grant sylweddol i helpu Pure Wafer Cyf i ddarparu cyfleuster unigryw ar gyfer adfer wafferi lled-ddargludyddion. Y prosiect £34 miliwn hwn oedd y fenter technoleg newydd fwyaf yn hanes busnes Cymru.

Mewn ardaloedd eraill bu tîm y gyfadran yn gweithio gydag amryw o gwmnïau sydd wedi hen sefydlu, i ymestyn neu wella'u cyfleusterau yn Ne Orllewin Cymru.

Roedd cwmnïau llwyddiannus yn cynnwys Denver Engineering o Lanelli, a welodd gynnydd o 40% mewn gwerthiant, EBS o Bontarddulais sydd erbyn hyn ar restr dendro British Airways, ac Excel Assemblies, Baglan, sydd wedi cael cyfle i gynnig pris am waith yn y sector gyfathrebu.

Dal i lwyddo fu hanes EDIMAR, y prosiect Ewropeaidd sy'n anelu at gysylltu rhanbarthau morwrol er mwyn hybu cysylltiadau busnes a masnach rhwng Bae Abertawe, Cork, Cuxhaven yn yr Almaen, Brindisi



*O'r Dde i'r Chwith:* Meng Yap, Rheolwr Gyfarwyddwr Ethnic Cuisine, Syr Peter Davies, Prif Weithredydd Grwp Archfarchnadoedd Sainsbury's, a Robert Servini, Cadeirydd Ethnic Cuisine

*From Left to Right:* Meng Yap, Managing Director Ethnic Cuisine, Sir Peter Davies, Group Chief Executive Sainsbury's Supermarkets, and Robert Servini, Chairman Ethnic Cuisine



Ehangodd Hi-Lex Cables o Japan eu gwaith ceblau modurol ar Barc Ynni Baglan gyda rhaglen buddsoddiad a fydd yn greu 160 o swyddi

Japanese-owned Hi-Lex Cables expanded their automotive cable plant at Baglan Energy Park with an investment programme which will create 160 jobs



Ym Mhencader yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin rhoddodd yr Awdurdod grant i helpu Cambrian Pet Foods i godi warws newydd a fydd yn cyflogi 12 o bobl yn ychwanegol.

Ac yn Abertawe rhoddodd yr Awdurdod gymorth grant i helpu Ethnic Cuisine i ehangu eu canolfan gynhyrchu bwyd mewn prosiect fydd yn arwain at 120 o swyddi ychwanegol.

Ledled y rhanbarth bu'r Awdurdod yn chwilio am ffyrdd cost-effeithiol a blaengar i helpu cwmnïau i ariannu cynlluniau ehangu. Er enghraifft, trefnodd yr Awdurdod becyn cyllid gan fanc buddsoddi blaenllaw i helpu Calsonic i ddatblygu siambr profi hinsawdd yn eu gwaith yn Llanelli.

Yn y cyfamser, i baratoi'r ffordd ar gyfer datblygu yn y dyfodol, fe ddiflannodd y rhwystrau olaf i fuddsoddwyr yn Noc y Gogledd, Llanelli, pan symudwyd y peilonau trydan a'r ceblau uwchben, a fu yno ers dyddiau Gorsaf Gynhyrchu Bae Caerfyrddin a gwaith dur Duport.

Cyfrannodd yr Awdurdod £1 miliwn tuag at y cynllun £5 miliwn sydd wedi gwneud Doc y Gogledd yn safle blaenllaw yng nghanol Parc Arfordir y Mileniwm ar gyfer busnes yn ogystal â datblygiadau preswyl a hamdden.

Manteisiodd mwy na 200 o fusnesau'r rhanbarth ar wasanaeth rheoli cwmniau'r Awdurdod, sydd wedi ei gynllunio i ddarparu cefnogaeth fusnes ragweithiol i fusnesau rhanbarthol.

Cynhyrchodd y Prosiect Clystyrau Cadwyn Cyflenwi nifer sylweddol o gyfleoedd busnes gan sicrhau cyfanswm o £1.9 miliwn o fusnes.

yn yr Eidal, Bastia yn Corsica a Viana do Castelo ym Mhortiwgal. Penodwyd 'hyrwyddwr' ar gyfer Datblygu Allforio Bae Abertawe i helpu busnesau bach a chanolig i fanteisio ar gyfleoedd masnach gyda rhanbarthau sy'n rhan o'r bartneriaeth.

### Cefnogi Adfywio Cymunedau a'r Amgylchedd

Rhoddodd yr Awdurdod gymorth grant i gyfres o gynlluniau gwella tref gan gynnwys troi'r hen Custom House yn Cambrian Place, Abertawe yn ganolfan hyfforddiant cymunedol, a throi hen adeiladau'r Llynges Frenhinol yn Noc Penfro yn swyddfeydd.

Cwblhawyd Rhan 2 o'r 'Prosiect Gwyrddio' yn Sandfields, Port Talbot. Nod y prosiect, sy'n cael ei reoli gan yr awdurdod lleol, hyw gwella ansawdd yr amgylchedd ar gyfer trigolion stad dai Sandfields a gwella argraff ymwelwyr o'r ardal. Talodd yr Awdurdod hanner cost y gwaith tirlunio.

Yng Nghwm Afan gerllaw cafodd safle amlwg yng nghanol cymuned Cymer ei wella'n sylweddol gyda help y WDA.

Yn y Cymoedd hefyd fe gwblhawyd rhannau olaf Cynllun Dŵr Mwynglawdd Afon Pelenna a chynllun adfer tir y Pwll Canol. Mae'r gweithfeydd hyn wedi glanhau afon Pelenna, oedd unwaith wedi ei llygru'n ddrwg gan ddŵr o'r pyllau glo.

At Swansea Vale Business Park, the Agency provided substantial grant aid to enable Pure Wafer Ltd. to develop a unique facility for the reclamation of semi-conductor wafers. This £34 million project was the biggest new technology venture in Welsh business history.

Elsewhere, the divisional team worked with a range of well-established companies to extend or improve their facilities in South West Wales. At Pencader, in rural Carmarthenshire, Agency grant aid helped Cambrian Pet Foods build a new warehouse, which will employ an additional 12 people.

And at Swansea, Agency grant-aid helped Ethnic Cuisine to expand their food making premises in a project which will lead to 120 more jobs.

Throughout the region, the Agency explored cost effective, innovative ways of helping companies finance expansion plans. For example, a funding package from a leading investment bank was brokered by the Agency to help Calsonic develop a climate test chamber at its Llanelli plant.

Meanwhile, to pave the way for future development, the last barrier to investors at North Dock, Llanelli, disappeared with the removal of the electricity pylons and overhead cables which had been in place since the days of the former Carmarthen Bay Power Station and Duport steel.

The Agency contributed £1 million to the £5 million scheme which has made North Dock a prime location at the heart of the Millennium Coastal Park for business as well as residential and leisure development.

More than 200 businesses in the region benefited from the Agency's account management service which is designed to provide proactive business support to regional business.

The Supply Chain Clusters Project produced a significant number of business opportunities and a total of £1.9 million of deals were achieved.

*De:* Trosglwyddo'r allweddi i ail gam canolfan gwasanaeth cwsmeriaid newydd ym Mhont Cleddau. Cyflogir 900 o bobl yn y ganolfan eisoes

*Right:* Keys to the second phase of a new customer service centre at Cleddau Bridge are handed over. 900 people are already employed at the centre



Successful companies include Llanelli based Denver Engineering, who have reported a 40% increase in sales, Pontarddulais based EBS who are now on the tender list of British Airways, while Excel Assemblies of Baglan have obtained opportunities to quote for work in the telecommunications sector.

EDIMAR, the European project aimed at linking maritime regions to encourage trade and business links between Swansea Bay, Cork, Cuxhaven in Germany, Brindisi in Italy, Bastia in Corsica and Viana do Castelo in Portugal continued to make good progress. A Swansea Bay Export Development 'champion' has been appointed to assist SMEs in exploiting trading opportunities with partner regions.

### Supporting the Regeneration of Communities and of the Environment

The Agency grant-aided a series of town improvement schemes including the conversion of the former Custom House at Cambrian Place, Swansea, into a community-training centre and the conversion of the old Royal Navy buildings at Pembroke Dockyard into office accommodation.

Phase 2 of the 'Greening Project' at Sandfields, Port Talbot, was completed. The initiative is managed by the local authority and aims to improve the quality of the environment for residents of the Sandfields housing estate and to enhance visitors' impressions of the area. The Agency met half the cost of the landscaping work.

In the nearby Afan Valley, a prominent site in the heart of the community of Cymmer was radically improved with WDA help.

Also in the Valleys, the final phases of both the River Pelenna Minewater Project and the Middle Mine land reclamation scheme were completed. These works have cleansed the river Pelenna, which was once badly polluted by minewater discharge.







Yn y Porth, y Rhondda, cefnogodd y WDA drawsnewid syfrdanol hen ffatri diodydd mwynol enwog, i fod yn stiwdio ddarlledu a recordio newydd, 'Ffatri Bop Avanti'

At Porth, in the Rhondda, the WDA supported the spectacular transformation of a famous old mineral drink factory into the ' Avanti Pop Factory' - a new broadcast and recording studio

# cyflwyno gwasanaethau ledled cymru

## De Ddwyrain Cymru

Mae Cyfadran De Ddwyrain Cymru yr Awdurdod yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Mae tua 49 y cant o boblogaeth Cymru yn byw yn y rhanbarth.

Cynorthwyodd gweithgareddau'r Awdurdod yn y rhanbarth i greu neu ddiogelu mwy na 8,200 o swyddi a sicrhau mwy na £203 miliwn o fuddsoddiad preifat yn ystod y flwyddyn.

### Uchafbwyntiau

Ar ddechrau'r flwyddyn rhoddodd tîm rhanbarthol yr Awdurdod flaenoriaeth uchel i godi ffatrïoedd a gweithdai er mwyn gwneud lle i fwy o fentrau newydd, ar gyfer cwmnïau lleol sy'n ehangu ac i fuddsoddwyr newydd yn yr ardal. Trwy amrywiaeth eang iawn o gyd-fentrau a phrosiectau mewn partneriaeth â datblygwyr eiddo sector preifat ac awdurdodau lleol, llwyddodd yr Awdurdod i sicrhau bod miliwn troedfedd sgwâr (92,900 metr sgwâr) o ofod llawr ffatri wedi ei gwblhau o fewn y rhanbarth.

Pan fydd y gofod wedi ei lenwi bydd gan y ffatrïoedd newydd le ar gyfer tua 3,000 o swyddi.

Cynyddwyd y gefnogaeth i fusnes yn y rhanbarth hefyd. Gweithiodd tîm Cefnogaeth Busnes y Gyfadran gyda rhyw 750 o gwmnïau i'w helpu i gyrchu amrywiaeth eang o raglenni i wella gallu cystadleuol a chynyddu gwerthiant.

Enillodd prosiectau dan arweiniad neu a gefnogwyd gan adran Adfer Tir y Gyfadran bedair o Wobrau Marc Mileniwm a ddyfarnwyd gan Grwp Prydain Daclus am 'ragoriaeth amgylcheddol tymor hir'. Yn y cyfamser dathlodd tîm Amgylcheddol y rhanbarth lwyddiant Strategaeth Dirwedd Bro Morgannwg (a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'r tîm) yng Ngwobrau Tirwedd Cyngor Ewrop. Ar ôl ei ddewis yn gais y Deyrnas Gyfunol yn dilyn Gwobrau'r Sefydliad Tirwedd, aeth ymlaen i ennill y brif wobr Ewropeaidd.

### Cefnogi Busnesau

Ymysg y prosiectau a helpodd i ddarparu'r cyfanswm o filiwn troedfedd sgwâr (92,900 metr sgwâr) o weithle newydd yn ystod y flwyddyn oedd adeiladu tair ffatri a gynlluniwyd ar gyfer gweithgynhyrchu ansawdd uchel yn Heol Goatmill, Merthyr. Cafodd yr unedau, gyda chyfanswm o 9,290 metr sgwâr o le, eu codi ar 'dir coch' wedi ei adfer. Roeddent ymhlith y cyntaf i gael eu cwblhau mewn ardal Amcan Un yng Nghymru.

Cwblhawyd canolfan alw 5,574 metr sgwâr a gynlluniwyd yn bwrpasol ar gyfer one2one yn Rhyd y Car, Merthyr, lle mae'r cwmni teleffonau symudol yn buddsoddi £12 miliwn ac yn creu mwy na 800 o swyddi.

Mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fe gwblhawyd y gyntaf o bedair ffatri (cyfanswm 6,503 metr sgwâr) ym Mharc Busnes Oakdale lle crëwyd safle strategol newydd o bwys ar gyfer diwydiant ar dir a adferwyd.

Yng Nghasnewydd fe gwblhawyd ail ran Tŷ Imperial, datblygiad a gynlluniwyd at ddefnydd technoleg ac ymchwil a datblygu blaengar, gan ychwanegu 2,787 metr sgwâr o weithle manyleb uchel. Gweithiodd yr Awdurdod hefyd mewn partneriaeth â chwmnïau preifat a datblygwyr sector preifat er mwyn darparu nifer o gyfleusterau newydd pwysig.




Buddsoddodd cwmni ffôn symudol one2one, £12 miliwn yn Rhyd y Car, Merthyr Tudful i ddatblygu canolfan gwasanaethau cwsmeriaid, 5,574 metr sgwâr, sy'n cyflogi 800

Mobile phone company one2one invested £12 million at Rhyd y Car, Merthyr Tydfil to develop a 5,574 sq. metre customer service centre employing 800



# *delivering services throughout wales*

## *South East Wales*

The Agency's South East Wales Division serves the local authority areas of Blaenau Gwent, Bridgend, Caerphilly, Cardiff, Merthyr Tydfil, Monmouth, Newport, Rhondda Cynon Taf, Torfaen and the Vale of Glamorgan. The region is home to some 49 per cent of the Welsh population.

Agency activities in the region helped to create or safeguard more than 8,200 jobs and to secure more than £203 million of private investment during the year.

### Highlights

At the year's outset, the Agency's regional team gave high priority to the construction of factories and workshops to make room for more new enterprises, for expanding local companies and for new investors in the region. Through a very wide range of joint ventures and partnership projects with private sector property developers and local authorities, the Agency secured the completion of one million square feet (92,900 square metres) of factory floor space within the region.

When fully occupied, the new factories will be able to accommodate approximately 3,000 jobs.

Increased support was also provided to business in the region . The Division's Business Support team worked with some 750 companies to help them access a wide variety of programmes to improve competitiveness and increase sales.

Projects led or supported by the Division's Land Reclamation department won four of the Millennium Marque Awards awarded by the Tidy Britain Group for 'long term environmental excellence'.

Meanwhile, the region's Environment team celebrated the success of the Vale of Glamorgan's Landscape Strategy (developed in collaboration with the team) in the Council of Europe's Landscape Awards. Selected as the UK's entry following earlier success in the Landscape Institute Awards, the project gained the top European award.

### Supporting Businesses

Among the projects which helped make up the total of one million square feet (92,900 square metres) of new working space delivered was the construction of three factories designed for high quality manufacturing at Goatmill Road, Merthyr. These units, totalling 9,290 square metres were built on 'brownfield' reclaimed land and were among the first to be completed within the Objective One area of Wales.

Elsewhere, a 5,574 square metres purpose designed call centre for one2one was completed at Rhyd y Car, Merthyr, where the mobile phone company is investing £12 million and creating more than 800 jobs.

In partnership with Caerphilly County Borough Council, the first four factories (totalling 6,503 square metres) were completed at Oakdale Business Park, where a major new strategic site for industry has been created on reclaimed land.

At Newport, the second phase of Imperial House, a development designed for advanced technology and research and development use, was completed with the addition of 2,787 square metres of high specification workspace. The Agency also worked in partnership with private companies and private sector developers to help ensure the delivery of several major new facilities.

Roedd y rhain yn cynnwys ffatri 1,672 metr sgwâr a gynlluniwyd yn bwrpasol ar gyfer Bogod ccc a ddiogelodd 60 o swyddi yn Llaneirwg, 'pentref swyddfa' 4,460 metr sgwâr a gwblhawyd gan yr adeiladwyr Macob ym Mhentrepoeth, ac adeilad 8,918 metr sgwâr a godwyd gan Dunraven Developments yn Llantrisant ar gyfer 'Buy As You View'. Rhoddodd yr Awdurdod hefyd gefnogaeth i'r cynllun trawiadol lle trawsnewidiwyd hen ffatri ddiodydd mwynol Thomas & Evans yn y Porth yn stiwdio gyfryngau'r 'Ffatri Bop'. Gyda chymorth yr Awdurdod fe roddodd y prosiect gan gwmni Teledu Avanti Cyf a Welsh Hills Works Cyf ddefnydd buddiol i 1,440 metr sgwâr o weithle.

Roedd y cwmnïau canlynol ymhlith y rhai a gafodd gymorth, rhai ohonynt newydd gyrraedd ac eraill wedi hen sefydlu:

Grŵp Lloyds TSB, a gafodd help i sefydlu canolfan newydd ar gyfer gwasanaeth rheoli cwsmeriaid ym Mhencoed lle bydd 410 yn cael eu cyflogi.

Surface Technology Systems o Japan a gafodd gymorth i symud i ffatri newydd pwrpasol ym Mharc Imperial, Casnewydd, lle bydd yn cynyddu ei weithlu sgil uchel gan 83.

On Line Finance, is-gwmni i General Motors, a gafodd gefnogaeth y tîm ar gyfer sefydlu canolfan brosesu benthyciadau ar-lein ym Mharc Nantgarw ger Trefforest

Wireless Systems Cyf, cwmni o Fryste, a dderbyniodd gymorth i agor cyfleuster gweithgynhyrchu newydd ym Mharc Llantarnam, Cwmbran, i gynhyrchu sainchwyddwyr a ddefnyddir gan orsafoedd teleffonau symudol. Cyflogir 300 yn y gwaith pan fydd yn gweithredu'n llawn.

### Cefnogi Adfywio Cymunedau a'r Amgylchedd

Trwy gymorth Grant Buddsoddi Trefol gan y WDA llwyddwyd i ddechrau'r gwaith ar adfer tir hen safle Dunlop Semtex ym Mrynmawr. Bydd y prosiect hwn yn cael gwared â hagrwch a fu'n boendod ym Mrynmawr ers bron i 20 mlynedd, ac yn creu tua 12,077 metr sgwâr o eiddo busnes a 250 o gartrefi newydd. Mae'n golygu chwistrelliad o £24.4 miliwn o fuddsoddiad sector preifat i Frynmawr gan greu 350 o swyddi.

Ym Merthyr Tudful dechreuwyd ar y gwaith o ddatblygu hen iard Gorsaf y Rheilffyrdd Prydeinig. Bydd y datblygiad adwerthu 10,962 metr sgwâr yn sicrhau buddsoddiad sector preifat o £12 miliwn.

Yng nghanol Pen-y-bont ar Ogwr rhoddodd yr Awdurdod gyllid ar gyfer gwaith i wella amgylchedd Stryd Adare, un o brif strydoedd siopa Pen-y-bont.

Ac yng Nghasnewydd bydd gwerthu tir yr Awdurdod i Bannantyne Leisure yn Uskway yn sbarduno adnewyddiad ardal Doc yr Hen Dref ac yn sicrhau buddsoddiad preifat o £2 miliwn.

Enillwyd gwobrau am brosiectau adfer tir llwyddiannus yn Nwyrain Merthyr, lle mae partneriaeth dan arweiniad y WDA yn adfer ardal anferth o dir a lygrwyd; yn Victoria, Glyn Ebwy, ar y safle lle cynhaliwyd yr Wyl Gerddi; Tyle Sirhywi, lle mae cynllun tirwedd sylweddol wedi bod yn mynd rhagddo ers pum mlynedd; ac ym Mharc Bryn Bach, lle crëwyd parc gwledig a llyn ar dir wedi ei adfer ger Tredegar.





Cafwyd cymorth gan Gronfa Benthyciadau Cymunedol Cymru, rhan o'r ystod o gynnyrch ariannol sy'n ffurfio Cyllid Cymru, i helpu i ymestyn siop y pentref ym Mhenrhys, y Rhondda

The Wales Community Loan Fund, part of the portfolio of financial products that forms Finance Wales, helped a village store extend in the Rhondda community of Penrhys

Ym Mhwynt Rhws, pwynt mwyaf deheuol Cymru, cwblhawyd rhaglen £5 miliwn deng mlynedd gan y WDA a Blue Circle Industries i glirio a thirlunio ardal enfawr 97 hectar o dir diffaith. Bydd lle ar y safle ar gyfer gwarchodfa natur, caeau chwarae, coetir a thir ar gyfer tai, siopau a busnes



Fe wariodd yr adran gyfanswm o £6.75 miliwn ar waith adfer yn ystod y flwyddyn ond 'enillodd' hefyd £4 miliwn mewn ad-daliadau gan dirfeddianwyr a datblygwyr am gyfran o'r cynnydd yng ngwerth tir a adferwyd gyda help y WDA. Roedd yr incwm yn cynnwys taliadau yn ymwneud â thrawsnewid glannau y Barri.

Ym Mhwynt y Rhws, rhoddwyd y cyffyrddiadau olaf ar y rhaglen adennill tir fwyaf a welwyd hyd yma yng Nghymru. Llwyddodd y rhaglen ddeng mlynedd, £5 miliwn, gan y WDA mewn partneriaeth â Blue Circle ccc i adfywio safle 97 hectar o dir diffaith a gloddiwyd ar gyfer sment er 1911. Roedd rhan o'r tir wedi ei lygru'n ddifrifol hefyd gan olion gwaith sment asbestos.

Cafodd y safle ei glirio a'i dirlunio i greu gwarchodfa natur, caeau chwarae, mynediad newydd i lwybr Arfordir Treftadaeth, a thir ar gyfer tai, siopau a busnesau.

Canolbwyntiodd y Tîm Amgylcheddol ar ddwy raglen: Tirweddau yn Gweithio dros Gymru, sy'n ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd cyffredinol mewn ardaloedd a dargedwyd; ac Amgylchedd yn Gweithio dros Fusnes, sy'n anelu at helpu cwmnïau i wella'u hardaloedd eu hunain ac i reoli eu hamgylchedd yn well.

Cafwyd yr enghreifftiau gorau o'r rhaglen gyntaf ym mhen uchaf Cwm Rhymni ac ym Mlaenafon. Amlygwyd amcanion yr ail raglen mewn prosiect a gwblhawyd ar gyfer Rubicon Beverages Cyf a Flametect Fabrics Cyf, dau gwmni sy'n gymdogion yn Nhafarnaubach ger Tredegar.

Trwy raglen dirlunio fe lwyddwyd i wella amgylchedd a delwedd y ddau gwmni.

These included a new ,purpose-built 1,672 square metres facility for Bogod plc which safeguarded 60 jobs at St. Mellons, a 4,460 square metres 'office village' completed by builders Macob at Morganstown and a 8,918 square metres facility constructed by Dunraven Developments at Llantrisant for 'Buy As You View'. The Agency also supported the spectacular transformation of the former Thomas & Evans mineral drink plant at Porth into the 'Pop Factory' a media studio. The project which has brought some 1,440 square metres of floorspace into productive use, was carried out by Avanti TV Ltd. and Welsh Hills Works Ltd. with Agency assistance.

Among many newly arrived and long-established companies assisted by the Division's Business Support team during the year were:

Lloyds TSB Group, which received help to establish a new client management service centre at Pencoed where 410 will be employed

Japanese-owned Surface Technology Systems which was assisted to move into a new, purpose built factory at Imperial Park, Newport, where it will increase its high skilled workforce by 83.


On Line Finance, a subsidiary of General Motors which received the team's support to establish a new, on-line loan processing centre at Parc Nantgarw, Treforest.

Wireless Systems Ltd. a Bristol-based company, which received help in opening a new manufacturing facility at Llantarnam Park, Cwmbran, to produce amplifiers used by mobile phone base stations. The plant will employ more than 300 when fully operational.

### Supporting the Regeneration of Communities and of the Environment

Urban Investment Grant support from the WDA enabled work to begin on reclaiming the former Dunlop Semtex site at Brynmawr. This project will clear a site which has blighted the town of Brynmawr for nearly 20 years and create some 12,077 square metres of business premises and 250 new homes. It represents an injection of £24.4 million of private sector investment into Brynmawr and will create 350 jobs.

At Merthyr Tydfil, development work began on the former British Rail Station Yard site where a 10,962 square metres retail development will secure some £12 million of private sector investment.



At Rhoose Point, the southernmost point of Wales, a £5million, ten-year long programme by the WDA and Blue Circle Industries to clear and landscape a huge, 97 hectare area of derelict land was completed. The site will now accommodate a nature reserve, playing fields, woodland and land for housing, shops and business

Gweithiodd cwmni o Ben-y-bont, Powersport, un o brif gynhyrchwyr cyfarpar gymnasteg Prydain, gyda gwasanaeth Ffynhonnell Cymru i wella ymhellach effeithiolrwydd llawr-ffatri

Bridgend-based Powersport, Britain's leading maker of gym equipment, worked with the Agency's Source Wales service to further improve shop floor efficiency





At Bridgend town centre, the Agency funded works to improve the environment of Adare Street, one of Bridgend's main shopping streets.

At Newport, the sale of land by the Agency to Bannantyne Leisure at Uskway will kick-start the regeneration of the Old Town Dock area and secure £2 million of private investment.

Award-winning land reclamation projects were undertaken at East Merthyr, where a partnership led by the WDA is reclaiming a huge area of despoiled land; at Victoria, Ebbw Vale, on the site of the former Garden Festival; at Sirhowy Hill where a major landscaping scheme has been carried out over the past five years; and at Parc Bryn Bach, where a country park and lake have been created on reclaimed land near Tredegar.

The department spent a total of £6.75 million on reclamation work during the year but also 'earned' some £4 million through the repayment from landowners and developers of a share of the enhanced value of land reclaimed with WDA help. The income included payments in respect of the transformed Barry Waterfront.

At Rhoose Point, the finishing touches were put to the biggest private/public land reclamation programme yet undertaken in Wales. The £5 million, ten year long programme by the WDA in partnership with Blue Circle Plc. rehabilitated a devastated 97 hectare site which had been quarried for cement since 1911. Part of the land was also heavily contaminated by the remains of an asbestos cement plant.

The site has been cleared and landscaped to create a nature reserve, playing fields, new access to the Heritage Coast footpath and land for housing, shops and business premises.

The Environment Team concentrated on two programmes: Landscapes Working for Wales -which seeks to improve the quality of the general environment in targeted areas- and Environment Working for Business - which aims to help companies to enhance their own surroundings to improve their environmental management.

The best examples of the former were the landscape improvements achieved in the Upper Rhymney Valley and at Blaenavon. A project which exemplified the objectives of the latter programme was completed for Rubicon Beverages Ltd and Flametect Fabrics Ltd, two neighbouring companies located at Tafarnaubach, near Tredegar.

A programme of landscaping enhanced both the environment and the image for both companies.







*Uchod:* Mae Invertek Drives o'r Trallwng wedi ennill Gwobrau Arloesedd Canolbarth Cymru am y tair blynedd diwethaf

*Above:* Invertek Drives of Welshpool have won the Mid Wales Innovation Awards for the past three years

*Chwith:* Crëwyd 30 swydd yng Nghrasdy'r Berwyn, Y Bala

*Left:* 30 jobs were created at Berwyn Bakers, Bala

# cyflwyno gwasanaethau ledled cymru

## Canolbarth Cymru

Mae Cyfadran Canolbarth Cymru y WDA yn gwasanaethu Ceredigion, Powys ac ardal Meirionnydd o sir Gwynedd. Mae'r rhanbarth yn cynnwys rhyw 40 y cant o arwynebedd daearyddol Cymru a saith y cant o'r boblogaeth.

Yn ystod y flwyddyn cynorthwyodd gweithgareddau'r Awdurdod i greu neu ddiogelu mwy na 3,356 o swyddi a chynhyrchu mwy na £13.4 miliwn o fuddsoddiad sector preifat.

### Uchafbwyntiau

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn roedd y buddsoddiad tramor uniongyrchol uchaf erioed yn yr ardal, a wnaed gan y cwmni cynhyrchu rhannau ceir SPX Contech. Bydd y cwmni Americanaidd yn creu hyd at 180 o swyddi yn Y Trallwng. Cafwyd llwyddiant da hefyd mewn nifer o sectorau busnes allweddol gan gynnwys bwyd-amaeth, diwydiannau cysylltiedig â choed, biotechnoleg, adnoddau adnewyddol a nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. Gwnaeth y llwyddiannau hyn gryn dipyn i liniaru anawsterau oedd yn dipyn o her mewn blwyddyn anodd a welodd nifer o fusnesau sylweddol yn cau gan effeithio ar lawer o drefi marchnad y rhanbarth.

Daeth rhaglen tair blynedd Menter Trefi Marchnad yr Awdurdod i ben ar ôl rhoi cymorth i brosiectau cymunedol ledled Canolbarth Cymru gyda chefnogaeth y Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd.

Mewn cynhadledd a gynhaliwyd i adolygu'r prosiect adroddodd y cymunedau eu bod wedi elwa ar hunan hyder ac egni newydd, a fu'n help i sicrhau a chreu cyflogaeth a gwella'r economi lleol.

Bydd cyfadran Canolbarth Cymru yn awr yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd trwy'r Fenter i hybu adfywio cymunedol ledled y Canolbarth.

### Cefnogi Busnesau

Yn ystod y flwyddyn darparwyd dros 9,290 metr sgwâr o adeiladau busnes newydd neu estyniadau, a fydd yn arwain at greu 450 o swyddi.

Ym Machynlleth, prynwyd ffatri newydd gan Byteback Systems i'w galluogi i ehangu ar EcoParc Dyfi, safle amgylcheddol-gyfeillgar yr Awdurdod, lle mae'r cwmni'n awr yn cyflogi 40 o bobl. Mae'r cwmni'n cyflenwi meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol. Gobeithiant greu 20 o swyddi eraill o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd ac Antur Dwyryd Llŷn, agorodd Cyfadran Canolbarth Cymru hen safle Cookes ym Mhenrhyndeudraeth ar gyfer ei ddatblygu. Bydd y safle yn darparu unedau busnes ychwanegol i'r ardal yn ogystal ag adfywio ardal diffaith helaeth.

Gan weithio trwy rwydwaith Cyswllt Busnes cynhaliodd cynghorwyr busnes dros 10,000 o sesiynau cynghori a gwybodaeth ar gyfer busnesau bach a newydd. Roedd hyn yn gynnydd o 13.5 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Helpodd y cynghorwyr i greu 271 o fusnesau newydd.

Rhoddodd y tîm Datblygu Busnes rhanbarthol gefnogaeth uniongyrchol i amrywiaeth eang iawn o fusnesau. Er enghraifft:

Achubwyd 17 o swyddi yn Rhaeadr pan sefydlodd Brooks Cyf, cwmni peirianneg o Stockport, waith newydd yn yr ardal gyda help yr Awdurdod. Rhoddodd hyn swyddi i gyn weithwyr cwmni lleol oedd newydd gau. Mae Brooks eisoes wedi sicrhau nifer o archebion pwysig ac yn bwriadu creu swyddi newydd ar y safle.




Bydd SPX Contech o'r Unol Daleithiau yn creu 180 o swyddi newydd yn y Trallwng. Y cynhyrchydd cydrannau modurol yw'r buddsoddiad tramor mwyaf erioed yn y rhanbarth

US-owned SPX Contech will create 180 new jobs in Welshpool. The automotive component manufacturer is the region's largest ever foreign direct investment





## *Mid Wales*

The WDA's Mid Wales Division serves Ceredigion, Powys and the Meirionnydd area of the county of Gwynedd. The region comprises some 40 per cent of Wales geographically and seven per cent of the population.

During the year, Agency operations helped create or safeguard more than 3,356 jobs and generated more than £13.4 million of private sector investment.

### Highlights

These included the announcement of the region's largest ever foreign direct investment, which was made by automotive component manufacturer SPX Contech. The US-owned company will create up to 180 jobs in Welshpool. Good progress was also achieved in several key business sectors including agri-business, timber-related industries, biotechnology, renewable resources and environmental goods and services. These successes went some way towards mitigating the challenges of a difficult year, which has seen a number of significant business closures affecting several of the region's market towns.

The Agency's three-year rural Market Town Initiative reached its conclusion having provided assistance and funding for community-led projects throughout Mid Wales with support from the European Regional Development Fund.

At a conference held to review the project, the communities reported that they had benefited from a new self-confidence and dynamism which had helped to create employment and improve the local economy.

The Mid Wales Division will now apply the lessons learned from the Initiative to support community regeneration throughout Mid Wales through a dedicated 'toolkit' of support.

### Supporting Businesses

Over 9,290 square metres of new business premises or extensions were provided during the year which will lead to the creation of 450 jobs.

In Machynlleth, a new factory was purchased by Byteback Systems to enable the company to expand at the Agency's environmentally friendly Dyfi EcoParc where the company now employs 40 people. The company supplies specialist computer software. It expects to create a further 20 jobs over the next two years.

The Mid Wales Division, in partnership with Gwynedd County Council and Antur Dwyryd Llyn, opened up the former Cookes site at Penrhyndeudraeth for development. The site will provide additional business units for the area as well as regenerating a large derelict area.

Working through the Business Connect network, business advisors provided over 10,000 advisory and information sessions for start-up and small businesses, representing a 13.5 per cent increase on the previous year. The team helped to create 271 new businesses

The regional Business Development team provided direct support to a wide range of businesses. For example:

Seventeen jobs were rescued at Rhayader when a Stockport-based engineering company, Brooks Ltd, opened a new operation in the area with Agency assistance and employed former workers from a newly-closed local company. Brooks has already secured several major orders and has plans to create new jobs at the site.

Mae hyd at 30 o swyddi uwch dechnoleg newydd yn cael eu creu yn Four Crosses ger Y Trallwng wrth i gwmni lleol newydd, Invertek Drives Cyf, ehangu. Dechreuodd y cwmni, sy'n gwneud rhannau ar gyfer moduron trydan, yn 1998 ac mae wedi derbyn cefnogaeth trwy nifer o raglenni dan arweiniad yr Awdurdod. Enillodd Wobrau Arloesedd Canolbarth Cymru am y tair blynedd diwethaf a chaiff ei gynnyrch eu hallforio i bob rhan o'r byd.

### Cefnogi Adfywio Cymunedau a'r Amgylchedd

Rhoddodd Menter y Trefi Marchnad becynnau cymorth a gwerth bron i £1 miliwn o gyllid i brosiectau amrywiol iawn yn ardal Abercraf, Gelli Gandryll, Aberteifi, Tregaron, Rhaeadr, Llanidloes, Llanfair Caereinion, Dolgellau, Penrhyndeudraeth a Blaenau Ffestiniog. Roedd gan y fenter dair blynedd, a ddaeth i ben yn 2000, nifer o amcanion eang o ran datblygu cymdeithasol ac economaidd. Y brif nod oedd annog cymunedau unigol i weithio gyda'i gilydd tuag at amcanion cytun. Er enghraifft yn Nolgellau, un o ganolfannau twristiaeth mwyaf adnabyddus Cymru, helpodd y fenter i ariannu gwefan hyrwyddo, llenyddiaeth dwristaidd ac arwyddion cyfeirio newydd.



Cynorthwyodd y Gweinidog Materion Gwledig Carwyn Jones lansiad 'Y Selsig Cig Oen Cymreig'

Rural Affairs Minister Carwyn Jones helped launch 'The Welsh Lamb Sausage'



*'Yn ystod y flwyddyn darparwyd dros 9,290 metr sgwâr o adeiladau busnes newydd neu estyniadau'*

Yn Y Bala fe ehangodd Crasdy'r Berwyn ei safle a chreu bron i 30 o swyddi gyda help tîm Datblygu Busnes yr Awdurdod. Mae'r cwmni'n disgwyl mwy o dwf eleni

Yn Aberhonddu fe ehangodd Beacon Foods i ffatri gyfagos gyda help gan yr Awdurdod, Cyngor Sir Powys a'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y gofod ychwanegol yn galluogi'r cwmni i greu 60 o swyddi.

Gyda chymorth Grant Datblygu Canolbarth Cymru symudodd The Burger Manufacturing Company i waith prosesu newydd ar Barc Menter Glannau Gwy yr Awdurdod yn Llanelwedd. Yno byddant yn cynhyrchu byrgyrs cig eidion a chig oen yn ogystal â bwydydd llysieuol a Dwyreiniol a'r sectorau cyfanwerthu, gwasanaeth ac arlwyo.

Cyfunodd Cyfadran Canolbarth Cymru gyda Chyngor Sir Powys i gefnogi Forsheda Cyf (Dowty Seals cyn hynny) mewn prosiect ehangu gwerth £600,000. Bydd hyn yn darparu peiriannau ychwanegol ar gyfer cynhyrchu seliau hylif perfformiad uchel a mowldiau polymer manwl gywir. Creodd y prosiect 19 o swyddi newydd gan godi cyfanswm y staff yn Y Drenewydd i 147.

Daeth Rhaglen Gweithredu Technoleg Cymru Wledig bron i'w therfyn. Nod y Rhaglen oedd codi defnydd technoleg cwmnïau bach a chanolig i hybu eu gallu cystadleuol ac yn ystod y flwyddyn ariannol rhoddwyd help i 101 o fusnesau. Yn sgil hyn cafodd 326 o swyddi eu creu neu eu diogelu a sicrhawyd buddsoddiad sector cyhoeddus o dros £643,000.

Daliwyd i roi cyllid ar gyfer Llafur Uniongyrchol, y fenter sy'n helpu teuluoedd ffermydd i gael gwaith oddi ar y fferm yn y gymuned leol, a bu hyn yn llwyddiant mawr.

Gweithiodd y tîm Datblygu Busnes rhanbarthol gyda Cyllid Cymru i gefnogi sefydlu Specialist Sports Cars Cyf yn Llanidloes. Dechreuodd y cwmni gynhyrchu ceir hunan-gydosod ar gyfer y farchnad Brydeinig ac i'w hallforio. Mae'r cwmni'n bwriadau creu 18 o swyddi.

Yn Aberteifi cefnogwyd nifer o gynlluniau gan Menter Aberteifi, gan gynnwys prosiect i ailddatblygu warws borthladd hanesyddol ac ymgyrch i wella gwedd y dref ei hunan. Yn Llanfair Caereinion cefnogwyd Fforwm lleol sy'n benderfynol o wyrdroi'r hyn a welir fel dirywiad yn y gymuned trwy nifer o fentrau yn cynnwys cynlluniau ar gyfer clwb chwaraeon newydd ac adnewyddu adeilad cymunedol.

Cefnogodd y tîm Datblygu Rhanbarthol nifer o brosiectau amgylcheddol a helpodd i hyrwyddo cymunedau a chefn gwlad. Rhoddwyd gwerth mwy na £467,000 o gymorth gan helpu i ddenu £1.3 miliwn oddi wrth ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill. Ymhlith y prosiectau roedd ffurfio a gwella teithiau tref a llwybrau yn y Gelli Gandryll, Y Drenewydd, Cwm Elan a Llanfyllin, a gwella treflun ac adeiladau canol tref yn Rhaeadr, y Trallwng, Llandrindod a Llanfair Caereinion. Rhoddwyd Grantiau Gwella Tref ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer gwella canol y dref mewn partneriaeth â'r grwp cymunedol Cyfle Ffestiniog a Chyngor Gwynedd. Cefnogwyd 11 o brosiectau adfer tir yn ystod y flwyddyn, llawer ohonynt yn daliadau terfynol i gynlluniau a drosglwyddwyd i'r Gyfadran yn dilyn uniad Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, y WDA ac Awdurdod Tir Cymru yn 1998. Cynhwysent gynlluniau yn Y Fan, Llanidloes; Chwarel Llanelwedd, ger Llanfair ym Muallt; Gwaith Nwy Llanfair ym Muallt; a Gweithiau Cwmerfyn/Bwlch ger Aberystwyth.

Un o'r cynlluniau pwysicaf oedd adfer safle peryglus hen waith nwy yn Llangawsai, Aberystwyth gan glirio llygredd a gwastraff peryglus oddi ar y safle. Aeth Cyngor Sir Ceredigion ati wedyn i godi ysgol a meysydd chwarae newydd i gymryd lle rhai presennol Ysgol Gyfun Penweddig.

Up to 30 new, high technology jobs are being created at Four Crosses, near Welshpool, thanks to the expansion of a new local company Invertek Drives Ltd. which manufactures components for electric motors. Launched in 1998, the company received support through a number of Agency-led programmes and has been a winner of the Mid Wales Innovation Awards for the past three years. It exports its products world wide

## Supporting the Regeneration of Communities and of the Environment

The Market Towns initiative offered a package of advice and nearly £1 million of funding for a wide variety of projects in Abercraf and District, Hay-on-Wye, Cardigan, Tregaron, Rhayader, Llanidloes, Llanfair Caereinion, Dolgellau, Penrhyndeudraeth and Blaenau Ffestiniog. The three year initiative which ended during 2000 had a number of broad social and economic development intentions. Its primary aim was to

*'Over 9,290 square metres of new business premises or extensions were provided during the year'*

Achubodd Brooks Cyf o Stockport bron ugain o swyddi yn Rhaeadr gyda mwy yn yr arfaeth

Stockport-based Brooks Ltd rescued nearly twenty jobs in Rhayader and plan to create more





At Bala, Berwyn Bakery expanded its premises and created nearly 30 jobs with support from the Agency's Business Development team. The company expects further growth this year.

In Brecon, Beacon Foods expanded into a neighbouring factory with assistance from the Agency, Powys County Council and the National Assembly. The additional space will enable the food processing company to create 60 new jobs.

With the aid of a Mid Wales Development Grant, The Burger Manufacturing Company moved to a new processing plant on the Agency's Wyeside Enterprise Park at Llanelwedd near Builth Wells, to produce high quality Welsh beef and lamb burgers as well as vegetarian and Eastern ranges to the wholesale, service and catering sectors.

Mid Wales Division combined with Powys County Council to support Forsheda Ltd (formerly Dowty Seals) in a £600,000 expansion project comprising additional machinery for the production of high performance fluid seals and precision polymer mouldings.
The project created 19 new jobs, bringing the company's Newtown staff total to 147.

The Rural Wales Technology Implementation Programme neared completion. The Programme sought to raise the technology base of small and medium sized enterprises in order to enhance their competitiveness and, during the course of the financial year, assisted 101 businesses. As a result, 326 jobs were created or safeguarded and over £643,000 of private sector investment generated.

Funding also continued for Labour Direct, the initiative which helps farming families to find off-farm job opportunities in the local community and which proved very successful.

The regional Business Development team worked with Finance Wales to support the establishment of Specialist Sports Cars Ltd. at Llanidloes. The company began manufacturing self-assembly cars for the UK and export markets. The company plans to create 18 jobs.

encourage individual communities to work together towards agreed objectives. For example, at Dolgellau, one of Wales' best known tourist centres, the initiative helped fund a promotional web-site, tourism brochures and new direction signs.

At Cardigan, a range of schemes by Menter Aberteifi were supported, including a project to redevelop an historically important port warehouse and a campaign to improve the appearance of the town itself. In Llanfair Caereinion, a local Forum determined to turn the tide of apparent decline in the local community was assisted in a series of initiatives including plans for a new sports club and the refurbishment of a community building.

The Regional Development team also supported a range of environmental projects which helped enhance communities and rural areas. The support totalled over £467,000, triggering £1.3 million from other public and private sector sources. The projects included the formation or improvements of town walks and trails at Hay-on-Wye, Newtown, Elan Valley and Llanfyllin, and the improvement of townscapes and town centre buildings at Rhayader, Welshpool, Llandrindod Wells and Llanfair Caereinion. Town Improvement Grants were awarded in Blaenau Ffestiniog to help improve the town centre in partnership with Cyfle Ffestiniog, the local community group and Gwynedd County Council. Eleven land reclamation projects were supported during the year, many of which were final payments to schemes transferred to the Division as part of the merger of the Development Board for Rural Wales, WDA and Land Authority for Wales in 1998. They included schemes at Y Fan, Llanidloes; Llanelwedd Quarry, near Builth Wells; Builth Wells Gasworks; and Cwmerfyn/Bwlch Mines, near Aberystwyth.

One of the most important schemes was the reclamation of the former gasworks at Llangawsai, Aberystwyth, which cleared the site of contamination and hazardous waste. Ceredigion County Council then built a new school and playing fields at the site to replace the old Ysgol Gyfun Penweddig.





## cyflwyno gwasanaethau ledled cymru

### *Gogledd Cymru*

Mae Cyfadran Gogledd Cymru y WDA yn cynnwys awdurdodau lleol Conwy, Gwynedd (ac eithrio Meirionnydd), Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn - a rhyw 22 y cant o boblogaeth Cymru. Cynorthwyodd gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn i greu neu ddiogelu mwy na 3,900 o swyddi a sicrhau mwy na £154.5 miliwn o fuddsoddiad sector preifat.

**Uchafbwyntiau**

Rhoddodd y Rhaglen Amcan Un ffocws pwysig i dîm yr Awdurdod yng Ngogledd Cymru lle dangosodd y defnydd o gronfeydd strwythurol Ewrop ganlyniadau sydyn a gwerthfawr.

Dechreuwyd yn gynnar ar ddefnyddio cronfeydd Amcan Un yn uniongyrchol yn ogystal â thrwy bartneriaethau lleol a rhanbarthol er mwyn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth a menter. Roedd y rhain yn cynnwys adeiladu unedau busnes yn Llangefni, Caernarfon, Conwy a Llanelwy.

Paratowyd cynlluniau hefyd ar gyfer datblygu safleoedd cyflogaeth strategol newydd yng Nghaergybi, Bangor a Chyffordd Llandudno a fydd yn y pen draw yn darparu lle ar gyfer mwy na 2,000 o swyddi. Bu gan dîm Gogledd Cymru hefyd ran allweddol mewn nifer o fentrau a gafodd gyllid Amcan Un gan gynnwys Cyswllt Busnes Plws, a fydd yn darparu dros £9 miliwn o gyllid i nifer o raglenni ar gyfer helpu busnesau bach.

Yng Ngogledd Ddwyrain Cymru bydd y buddsoddiad sylweddol iawn gan Airbus-UK a gefnogwyd gan grant o £14.5 miliwn gan yr Awdurdod nid yn unig yn diogelu a chreu 1,700 o swyddi ond hefyd yn rhoi cyfle euraid i'r Awdurdod chwilio am fwy o fuddsoddiad a rhagor o swyddi sgiliau uchel. Mae'r Awdurdod wedi paratoi cynlluniau eisoes ar gyfer parc cyflenwi awyrofod yn agos at brif ganolfan weithgynhyrchu Airbus-UK.

Yn sector optroneg y Gogledd fe barhawyd i ddatblygu ffynhonnell arall o swyddi ansawdd uchel, sef prosiect i greu OpTIC ('Optronics Technology and Incubation Centre') ym Mharc Busnes Llanelwy.

**Cefnogi Busnesau**

Mewn partneriaeth agos gydag awdurdodau lleol y Rhanbarth dynodwyd amrywiaeth o safleoedd cyflogaeth strategol allweddol ar gyfer eu datblygu ledled Gogledd Cymru.

Yn arbennig fe baratôdd yr Awdurdod, mewn cydweithrediad ag Alwminiwm Môn, astudiaeth ddatblygu ar gyfer safle 81 hectar Tŷ Mawr yng Nghaergybi.

Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd sylweddol ym Mharc Bryn Cegin ar gyrion Bangor a fydd yn darparu lle ar gyfer 1,500 o swyddi ac yn gweithredu fel porth busnes i ardaloedd llechen y Gogledd.

Yn ychwanegol fe wnaed cais am ganiatâd llywodraeth leol i ailddatblygu hen safle Hotpoint yng Nghyffordd Llandudno ar gyfer amryw o ddefnyddiau masnachol.

Gwnaeth y Gyfadran gynlluniau hefyd ar gyfer yr hyn a allai ddod yn un o'r datblygiadau pwysicaf yng Nghymru, ar dir i'r gogledd o Ffordd Shotwick ar Lannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint. Mae'r Cyngor wedi gwneud cais i Gyngor Sir y Fflint am ganiatâd cynllunio i ddatblygu cyfanswm net o 80 hectar o dir ar gyfer creu gwaith. Galwyd y cais i mewn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chynhaliwyd ymchwiliad cynllunio yn ystod 2000/01. Disgwylir penderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl iddynt ystyried adroddiad yr arolygydd cynllunio. Gallai'r safle ddarparu lle i filoedd lawer o swyddi a byddai'n atyniad pwerus i fuddsoddiadau newydd o bwys.



Ennillodd Gogledd Cymru ei buddsoddiad cyntaf o Taiwan drwy brosiect cynhyrchydd beiciau, Cycle Citi, i sefydlu ei brif ganolfan gweithgynhyrchu Ewropeaidd ger Bangor

North Wales secured its first investment from Taiwan with bicycle maker Cycle Citi's project to establish its main European manufacturing base near Bangor

Wrecsam - Y Canol Tref a Wellodd Orau yn y Deyrnas Gyfunol

Wrexham - Most Improved Town Centre in the UK



*delivering services throughout wales*

## *North Wales*

The North Wales Division of the WDA serves the local authorities of Conwy, Denbighshire, Flintshire, Gwynedd (excluding Meirionydd), Wrexham and Ynys Môn - and some 22 per cent of the population of Wales. Agency activities during the year helped to create or safeguard more than 3,900 jobs and secured more than £154.5 million of private sector investment.

### Highlights

The Objective One Programme provided a major focus for the Agency's team in North Wales where the application of European structural funds showed rapid and valuable results. An early start was made in using Objective One funds directly as well as through local and regional partnerships to create new employment and enterprise opportunities. These included the construction of new factory and business units at Llangefni, Caernarfon, Conwy and St. Asaph.

Plans were also prepared for the development of new strategic employment sites at Holyhead, Bangor and Llandudno Junction, which will ultimately provide room to accommodate more than 2,000 jobs. The North Wales team also played a key role on several Objective One funded initiatives such as Business Connect Plus, which will provide over £9 million of funding for a range of programmes to help small businesses.

In North East Wales, the very large investment by Airbus-UK - supported by £14.5 million grant from the Agency- will not only safeguard and create some 1,700 jobs but will provide a golden opportunity for the Agency to seek more investment and more highly skilled jobs. The Agency has already prepared plans for a major aerospace supplier park close to the main Airbus-UK manufacturing centre.

Development of another source of high quality jobs in the optronics sector in North Wales continued with a project to create an OpTIC (Optronics Technology and Incubation Centre) at the St. Asaph Business Park.

### Supporting Businesses

In close partnership with the Region's local authorities, a range of key strategic employment sites were identified for development across North Wales. Notably, the Agency has prepared, in association with Anglesey Aluminium, a development study for the 81 hectare Ty Mawr site at Holyhead.

Planning permission was secured for a major new development at Parc Bryn Cegin on the outskirts of Bangor which will provide room for some 1,500 jobs and which will act as a business gateway to the northern slate valleys. In addition, local authority approval was sought for the redevelopment of the former Hotpoint site at Llandudno Junction for a wide range of new commercial uses.

The Division also prepared plans for what could be one of the most important new developments anywhere in Wales on land north of Shotwick Road, Deeside, Flintshire. The Agency has submitted a planning application to Flintshire County Council for permission to bring forward a net area of 80 hectares of land for employment development. The application has been called in the by the National Assembly for Wales and a planning inquiry was held during 2000/01. A decision by the National Assembly for Wales is expected following their consideration of the planning inspector's report. The site would be capable of accommodating several thousand jobs and would be a powerful attraction to major new investment.

Yn Llanelwy dechreuodd yr Awdurdod waith ar 12 o unedau busnes bach a gynlluniwyd ar gyfer defnyddwyr uwch dechnoleg. Ar ôl eu cwblhau bydd yr unedau yn darparu lle i ryw 100 o swyddi newydd yn y Parc. Mae'r datblygiadau hyn i gyd yn cael cefnogaeth gan raglen Amcan Un.

Parhaodd nifer o gynlluniau a mentrau adnewyddu trefol gydol y flwyddyn mewn trefi ar draws Gogledd Cymru yn cynnwys Bae Colwyn, Y Rhyl, Shotton a Chaernarfon.

Ym Mawrth 2001 cymeradwyodd Bwrdd yr Awdurdod gynllun i ehangu'r Fenter i chwe chymuned arall ar draws y rhanbarth.

Hefyd yn ystod y flwyddyn, sicrhaodd tîm y Gyfadran Technoleg ac Arloesedd fwy na £900,000 o grantiau o nifer o ffynonellau llywodraeth ac Ewropeaidd ar gyfer cwmnïau lleol, er mwyn helpu'r busnesau i fabwysiadu technoleg newydd a datblygu cynnyrch newydd. Llwyddodd y cymorth grant i godi £1 miliwn arall o fuddsoddiad sector preifat.






Y llynedd gwelwyd agoriad swyddogol TRB yn Llanelwy, y ffatri Siapaneaidd cyntaf yn Sir Ddinbych

Last year saw the official opening of TRB in St. Asaph, the first Japanese company in Denbighshire

Mae'r Awdurdod hefyd wedi parhau i gefnogi Cyngor Gwynedd gyda Menter Ardal y Llechen sy'n adfywio hen ardaloedd y chwareli.

Yng Nghaernarfon daeth un datblygiad cynnar yn sgîl prosiect yr Awdurdod ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd i ail ddatblygu Doc Fictoria; cafwyd buddsoddiad preifat (gyda chefnogaeth Grant Gwella Trefi yr Awdurdod) ar gyfer canolfan chwarae o fewn eglwys oedd wedi bod yn wag ers 18 mlynedd. Bu prosiect yr Hwylfan yn llwyddiant mawr gyda phobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, a chafodd ei ddewis yn 'Fusnes Lleol y Flwyddyn' gan Cyswllt Busnes Cymru

Rhoddodd y timoedd Datblygu a Chefnogi Busnes gefnogaeth eang i fwy na 1,000 o fentrau o bob maint yng Ngogledd Cymru yn ystod y flwyddyn. Yn eu plith roedd SMP Cyf, cwmni sy'n gwneud cydrannau metaleg powdr, a symudodd i ffatri newydd 1,672 metr sgwâr a godwyd gan yr Awdurdod gyda chefnogaeth y rhaglen Amcan Un ar Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni ar Ynys Môn. Cyn symud roedd sylfaenwyr y cwmni wedi helpu i godi £1 miliwn o fuddsoddiad sector preifat oedd yn angenrheidiol i sicrhau fod y prosiect yn digwydd.

Trwy weithredu rhaglen welliant parhaol yn Arvin Meritor yn Llai ger Wrecsam fe lwyddodd y cwmni - sy'n cyflogi 300 - i ddynodi £350,000 o gynilion blynyddol trwy ailgynllunio eu proses weithgynhyrchu. Mae Arvin Meritor wedi arwyddo ar gyfer ail raglen i roi sylw i brosesau eraill.

Helpodd cynllun y Fenter Trefi Bach a Phentrefi 170 o fusnesau bach yn ardaloedd gwledig y Gogledd trwy grant neu gynghorion, gan greu neu ddiogelu dros 150 o swyddi a symbylu dros £464,000 o fuddsoddiad preifat yn yr economi lleol. Hyd yn oed yn bwysicach o bosibl, sefydlwyd chwe grwp busnes newydd gyda chefnogaeth cydlynwyr prosiectau lleol. Mae ffurfio'r grwpiau hyn - i gynllunio, cydweithio a chodi arian ar gyfer dyfodol eu cymunedau - yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol cynaliadwy i'r trefi bach a'r pentrefi a dargedwyd gan y Fenter.

### Cefnogi Adfywio Cymunedau a'r Amgylchedd

Ar ôl trafodaethau maith rhwng Cyfadran Gogledd Cymru yr Awdurdod, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Lleol Wrecsam a Brymbo Developments Cyf, cytunwyd ar ddull hyfyw i adfer safle 97 hectar hen waith dur Brymbo.

Gyda chefnogaeth grant o £8.5 miliwn mae'r gwaith ar droed i drawsnewid tir a gafodd ei greithio a'i lygru'n enbyd, a darparu gofod ar gyfer tai, amwynderau a safleoedd busnes gyda lle i rhwng 750 a 1,000 o swyddi.

Yn Wrecsam fe gafwyd un o'r prosiectau datblygu trefol pwysicaf, wrth i ganol y dref gael ei wella'n sylfaenol gyda chefnogaeth gwerth cyfanswm o £11 miliwn gan yr Awdurdod.

Cafodd Y Werddon, Ffordd yr Wyddgrug a lleoliadau eraill yng nghanol y dref eu hailddatblygu a'u gwella'n amgylcheddol ar raddfa fawr, gan ddenu dros £140 miliwn o fuddsoddiad sector preifat. Cafodd Wrecsam ei henwi fel 'Y Canol Tref sydd wedi Gwella Mwyaf yn y Deyrnas Gyfunol' gan y British Property Retailer Index ac Experian Surveys.

Mae gwerthusiad o weithrediad blwyddyn gyntaf y Cynllun Menter Trefi Bach a Phentrefi wedi cadarnhau ei werth. Lansiwyd y cynllun mewn cymunedau targed ledled ardaloedd gwledig y Gogledd yn Rhagfyr 1999. Mae'n gynllun adfywio economaidd gwledig integredig yn cyfuno cymorth i fusnesau lleol a grwpiau busnes gyda chefnogaeth gan gydlynydd prosiect penodol a chyllid ar gyfer gwelliannau amgylcheddol.

Cynhaliwyd amrediad o gynlluniau amgylcheddol ac adfer tir yn werth £1.8 milwn ar draws y rhanbarth yn sylfaen i weithgareddau datblygu economaidd. Amrywiai'r rhain o uwchraddio stadau diwydiannol hyn i greu cyfleusterau isadeiledd twristiaeth mewn ardaloedd gwledig.

At St Asaph, the Agency began work on 12 small business units designed for advanced technology users. The completed units will provide space for some 100 new jobs at the Park. All these developments are supported by the Objective One programme.


Other major urban regeneration plans and initiatives continued during the year in towns across North Wales. They included Colwyn Bay, Rhyl, Shotton and Caernarfon.

Also during the course of the year, more than £900,000 of grants, from a variety of government and European sources, were secured for local companies by the Division's Technology and Innovation team to help the businesses embrace new technology and to develop new products. The grant aid generated an additional £1million of private sector investment.

**Supporting the Regeneration of Communities and of the Environment.**

Bydd buddsoddiad gan Airbus-UK yng Ngogledd Ddwyrain Cymru yn galluogi'r WDA i ddenu mwy o swyddi o ansawdd

Investment by Airbus-UK in North East Wales will enable the WDA to attract more skilled jobs





The Agency also continued to support Gwynedd County Council in the Slate Valleys Initiative to regenerate former quarrying areas.

In Caernarfon, one early 'spin-off' benefit of the Agency's joint venture with Gwynedd County Council for the redevelopment of Victoria Dock was a private sector investment (backed by an Agency Town Improvement Grant) to create a Play Centre within a Church which had been disused for 18 years. The Hwylfan play centre project proved very successful with local people and visitors alike and was voted 'Local Business of the Year' by Business Connect Wales.

The divisional Business Support and Development teams provided a wide range of assistance to more than 1,000 North Wales enterprises of all sizes during the year. Among these were SMP Ltd., a new manufacturer of Powder Metallurgy (PM) components, which moved into a new 1,672 square metres factory built by the Agency with support from the Objective One programme on the Bryn Cefni Industrial Estate, on Anglesey. Prior to the move, the company's founders were assisted in raising the £1 million private sector investment needed to make the project happen.

